------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 1 Tachwedd 2021

Amser: 13.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Rhys Morgan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

**Rhag-gyfarfod preifat**

(13.15-13.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.30)

## 2 Cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru

(13.30-15.00) (Tudalennau 1 - 13)

Yr Athro Simon Hoffman - Prifysgol Abertawe

Dr Sarah Nason - Prifysgol Bangor

## 3 Papurau i'w nodi

(15.00-15.05)

**3.1 Gohebiaeth oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Cadeirydd ynghylch cytundebau rhyngwladol**

(Tudalennau 14 - 16)

**3.2 Gohebiaeth oddi wrth Gadeirydd (Cymru) y Cyngor Defnyddwyr Dŵr at y Cadeirydd ynghylch effaith y pandemig ar lefelau dyled**

(Tudalennau 17 - 19)

**3.3 Dyled a'r pandemig: tystiolaeth ysgrifenedig gan Cartrefi Cymunedol Cymru**

(Tudalennau 20 - 24)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(15.05)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 5 Cryfhau a hyrwyddo cydraddoldebau a hawliau dynol yng Nghymru – trafod y dystiolaeth

(15.05-15.20)

**Egwyl**

(15.20-15.40)

## 6 Dyled a'r pandemig – trafod yr adroddiad drafft

(15.40-16.25) (Tudalennau 25 - 45)

## 7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol – trafod yr adroddiad drafft

(16.25-16.40) (Tudalennau 46 - 60)

## 8 Blaenraglen waith

### 8.1 Blaenraglen waith a chynllunio strategol o ran y camau nesaf

(Tudalennau 61 - 68)

Er mwyn llywio trafodaeth y flaenraglen waith, efallai yr hoffai'r Aelodau ymgyfarwyddo o'r newydd â'r ohebiaeth ganlynol gan randdeiliaid a sefydliadau partner:

- Gohebiaeth gan Gwenith Price, Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg at y Cadeirydd ynghylch ystyried y Gymraeg yng ngwaith y Pwyllgor – 19 Gorffennaf 2021

- Gohebiaeth gan Gyfarwyddwr RNIB Cymru at Aelodau'r Pwyllgor ynghylch ymchwil ddiweddaraf RNIB i brofiadau pleidleisio pobl ddall a rhannol ddall – 23 Gorffennaf 2021

- Gohebiaeth gan Victoria Winkler, Cyfarwyddwr, Sefydliad Bevan at y Cadeirydd ynghylch tlodi plant a diogelu hawliau mudwyr - 23 Gorffennaf 2021 [Saesneg yn unig]
- Gohebiaeth gan Pippa Cotterill, Pennaeth Swyddfa Cymru, Coleg Brenhinol Therapyddion Lleferydd ac Iaith Cymru at y Cadeirydd ynghylch anghenion pobl ifanc yn yr ystâd cyfiawnder ieuenctid o ran lleferydd, iaith a chyfathrebu - 1 Medi 2021 [Saesneg yn unig]
- Gohebiaeth gan y Gender Network ynghylch cydraddoldeb rhywiol - 15 Medi 2021 [Saesneg yn unig]
- Gohebiaeth gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ynghylch canfyddiadau o ran cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol - 5 Hydref 2021

**8.2 Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yma - trafod yr ymatebion**

(16.40-17.00) (Tudalennau 69 - 95)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Legislation, Justice and Constitution Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

14 Hydref 2021

Annwyl Jenny

**Diogelu Gwybodaeth Gyfrinachol: cytundebau y DU/Estonia, y DU/Latfia, y DU/Gwlad Belg a'r DU/yr Eidal**

Ar 21 Medi ysgrifennais atoch i dynnu sylw eich Pwyllgor at bedwar cytundeb rhyngwladol rhwng y DU ac Aelod-wladwriaethau unigol yr UE (y DU / Estonia, y DU / Latfia, y DU / Gwlad Belg a'r DU / Yr Eidal) ar ddiogelu gwybodaeth gyfrinachol a drafodwyd gennym yn ein cyfarfod ar 13 Medi 2021.

Ysgrifennais at Lywodraeth Cymru hefyd i ofyn am ei hasesiad o oblygiadau'r cytundebau, os o gwbl, i Gymru a'i chontractwyr. Efallai y byddech yn dymuno cael gwybod ein bod wedi trafod ymateb y Prif Weinidog yn ein cyfarfod ar 11 Hydref 2021. Mae'r ymateb yn amgaeedig er gwybodaeth.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd – y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru

04 Hydref 2021

Annwyl Gadeirydd

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 20 Medi ar Ddiogelu Gwybodaeth Gyfrinachol – cytundebau y DU/Estonia, y DU/Latfia, y DU/Gwlad Belg a'r DU/yr Eidal.

Ein asesiad cyfreithiol o'r cytundebau hyn yw eu bod yn ymwneud â rhannu data a diogelwch cenedlaethol a'u bod felly yn faterion a gadwyd yn ôl.

Mae'r darpariaethau sylweddol yn rhai lefel uchel ac mae'n debygol y byddai angen trefniadau gweithredu mewn perthynas â chyfnewidiadau penodol. Mae'r cytundebau'n ddarostyngedig i gyfreithiau a rheoliadau cenedlaethol, a dylem ystyried a ydynt yn gwrthdaro â'r rhain. Rydym o'r farn nad ydynt yn gwrthdaro â deddfwriaeth diogelu data'r DU.

Gan ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried rhwymedigaethau rhyngwladol wrth wneud penderfyniadau, gallent wynebu Adolygiad Barnwrol neu gamau gan yr Ysgrifennydd Gwladol am fethu â gwneud hynny.

O ran ymgynghori, pe bai'r cytundebau'n cael effaith ar faterion datganoledig, byddai gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb dilys yn y rhannau hynny o'r trafodaethau ac felly byddai disgwyl y byddai ymgynghori'n digwydd â hi. Yn ein barn ni, mae'r cytundebau hyn yn rhai

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakefordy@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

lefel uchel ac yn ymwneud â materion a gadwyd yn ôl felly nid oes disgwyl bod ymgynghori’n digwydd.

Yn gywir



**MARK DRAKEFORD**

The voice for water consumers
Llais defnyddwyr dŵr

25 Hydref 2021

**Anfonwyd drwy e-bost at: SeneddEquality@senedd.wales**

Annwyl Jenny,

Rydw i wedi gweld lansiad ymchwiliad y pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i effaith y pandemig ar lefelau dyled, sy’n canolbwyntio'n benodol ar ddyled bersonol, aelwydydd a defnyddwyr, a dyma feddwl ei bod hi’n amserol cyflwyno CCW – y Cyngor Defnyddwyr Dŵr – a chanfyddiadau allweddol yr Adolygiad Fforddiadwyedd Annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ac a gyhoeddwyd ym mis Mai 2021.

**Pwy ydyn ni**

CCW yw'r llais annibynnol i ddefnyddwyr dŵr yng Nghymru a Lloegr. Ers 2005, rydym wedi helpu miloedd o ddefnyddwyr i ddatrys cwynion yn erbyn eu cwmni dŵr, gan ddarparu cyngor a chymorth am ddim yr un pryd. Mae ein gwaith yn cael ei lywio gan waith ymchwil helaeth, a ddefnyddiwn i hyrwyddo buddiannau defnyddwyr a dylanwadu ar gwmnïau dŵr, llywodraethau a rheoleiddwyr.

**Argymhellion yr adolygiad Fforddiadwyedd Annibynnol o Ddŵr**

Ar 26 Mai 2021, cyhoeddodd CCW ganfyddiadau'r adolygiad annibynnol, a gomisiynwyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Nod yr adolygiad oedd gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau i'r cymorth sydd ar gael i'r rhai sy'n ei chael yn anodd talu am wasanaethau dŵr. Gwnaethom ymgysylltu â'r cyhoedd wrth drafod atebion i dlodi dŵr, ac adolygu’r diwydiant dŵr ac arferion cymorth traws-sector er mwyn rhannu dysgu a chydlynu atebion i broblem gynyddol tlodi dŵr.

Comisiynwyd yr adolygiad fforddiadwyedd ar adeg pan oedd pwysau ariannol y pandemig Covid-19 yn rhoi pobl fregus yn ariannol mewn mwy o berygl o fethu â thalu eu biliau. Yn ogystal â chreu risg uwch o ddyled a thlodi i'r rhai a oedd prin yn cael dau ben llinyn ynghyd yn barod neu a oedd yn wynebu amgylchiadau newydd ac annisgwyl.

Byddai CCW yn croesawu'n arbennig gefnogaeth y Pwyllgor ar ddau argymhelliad allweddol yn yr adolygiad:

Mae CCW yn gofyn i'r pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol gefnogi sefydlu un tariff cymdeithasol sy'n gallu rhoi diwedd ar dlodi dŵr[1] yng Nghymru (a Lloegr). Gofynnwn hefyd i'r pwyllgor argymell bod Llywodraeth Cymru (deddfwriaeth) a'r sector (gweithredu gan gwmnïau) yn cyflawni hyn erbyn 2025. Credwn yn gryf mai un tariff cymdeithasol ar gyfer Cymru a Lloegr sydd orau i bobl Cymru ac mae'n adeiladu ar y cymorth presennol a ddarperir gan gwmnïau dŵr yng Nghymru hyd yma.[2]

Yn dilyn cyhoeddi'r adolygiad annibynnol, mae Llywodraeth Cymru a Defra wedi cychwyn ar y gwaith o archwilio'r opsiynau ar gyfer datblygu un tariff cymdeithasol.

[1] Yn yr Adolygiad Fforddiadwyedd Annibynnol, diffinnir tlodi dŵr fel gwario mwy na 5 y cant o incwm eich aelwyd ar filiau dŵr ar ôl costau tai.
[2] Mae 120,000 a mwy yn gwsmeriaid drwy dariffau cymdeithasol presennol cwmnïau dŵr yng Nghymru hyd yn oed os nad ydynt i gyd o reidrwydd mewn tlodi dŵr o 5% neu'r hyn a alwn yn dlodi dŵr difrifol.


Yn olaf, mae CCW yn gofyn i'r pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol gefnogi argymhellion canlynol yr adolygiad fforddiadwyedd:

Mae CCW am i'r pwyllgor gefnogi argymhelliad CCW i sicrhau mwy o ddefnydd o'r darpariaethau rhannu data a ddarperir gan Ddeddf yr Economi Ddigidol (2017) i ganiatáu i gwmnïau dŵr gael darlun mwy cyfannol o amgylchiadau cwsmeriaid unigol, a mabwysiadu dull mwy rhagweithiol o roi cyngor a chymorth iddynt.
Mae'r argymhelliad hwn yn cefnogi amcan Cynllun Pwyslais ar Incwm Llywodraeth Cymru i sicrhau y gellir 'trosglwyddo' rhwng budd-daliadau awdurdodau lleol gan ei gwneud yn haws ac yn gyflymach i wneud cais am gymorth yng Nghymru.

Mae CCW am i'r pwyllgor gefnogi ein hargymhelliad i sefydlu hwb ar-lein ar gyfer atgyfeiriadau dwyffordd y gall cwmnïau dŵr ac elusennau ei ddefnyddio i rannu gwybodaeth. Mae'r argymhelliad hwn yn cefnogi amcan Cynllun Pwyslais ar Incwm Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yna bwyntiau mynediad unigol at gymorth, a dull 'dim drws anghywir' ar draws rhaglenni trechu tlodi ac i gefnogi 'atgyfeiriadau cynnes' rhwng gwasanaethau.

Byddwn yn croesawu cyfarfod gyda chi i drafod yr argymhellion a amlinellir uchod a sut y gallwn gydweithio i ddatblygu atebion i'r broblem cynyddol o dlodi dŵr yng Nghymru. Os ydych yn barod i'n cyfarfod, a fyddech cystal ag anfon e-bost at Ellen Jones, ein Rheolwr Ymgyrchu ac Ymgysylltu, yn ellen.jones@ccwater.org.uk

Yn gywir,



Rhodri Williams
Cadeirydd CCW (Cymru)

---------------------------------------------------------------------------

25 October 2021

**Sent via email to: SeneddEquality@senedd.wales**

Dear Jenny,

I have seen the launch of the Equality and Social Justice committee's inquiry into the impact of the pandemic on levels of indebtedness, with a particular focus on personal, household and consumer debt, and thought it timely to introduce CCW – the Consumer Council for Water – and the key findings of the Independent Affordability Review commissioned by UK and Welsh Government published in May 2021.

**Who we are**

CCW is the independent voice for water consumers in England and Wales. Since 2005, we have helped thousands of consumers resolve complaints against their water company, while providing free advice and support. Our work is informed by extensive research, which we use to champion the interests of consumers and influence water companies, governments and regulators.

**Recommendations of the Independent Affordability review on Water**

On 26th May 2021, CCW published the findings of the independent review, which was commissioned by UK and Welsh Government. The aim of the review was to make recommendations for improvements to the support available to those who struggle to pay for water services. We engaged the public in discussing

solutions to water poverty, and reviewed water industry and cross-sector assistance practices to share learning and coordinate solutions to the growing problem of water poverty.

The affordability review was commissioned at a time when the financial pressures of the Covid-19 pandemic were putting financially vulnerable people at a higher risk of not being able to pay their bills. As well as creating a higher risk of debt and poverty for those who were just about managing or were faced with new and unexpected circumstances.

CCW would particularly welcome the Committee's support on two key recommendations from the review:

CCW ask that the Equality and Social Justice committee support the establishment of a single social tariff capable of ending water poverty[3] in Wales (and England). We also ask the committee to recommend that Welsh Government (legislation) and the sector (company-based implementation) deliver this by 2025. We strongly believe a single social tariff for England and Wales is best for the people of Wales and builds on the existing assistance provided by water companies in Wales to date.[4]

Following the publication of the independent review Welsh Government and Defra have initiated work to examine the options for the development of a single social tariff.

Finally, CCW ask that the Equality and Social Justice committee support the following affordability review recommendations:

CCW want the committee to support CCW's recommendation of ensuring greater use of the data sharing provisions provided by the Digital Economy Act (2017) to allow water companies to take a more holistic view of individual customers' circumstances, and adopt a more proactive approach to providing them with advice and assistance.
This recommendation supports the Welsh Government's Income Maximisation Plan objective to enable 'passporting' between local authority benefits making it easier and quicker to apply for support in Wales.

CCW want the committee to support our recommendation of the establishment of an online hub for two-way referrals that can be used by water companies and charities to share information. This recommendation supports Welsh Government's Income Maximisation Plan objective to enable single entry points to support, and a 'no wrong door' approach across tackling poverty programmes and to support 'warm referrals' between services.

I would welcome a meeting with you to discuss the recommendations outlined above and how we can work together to progress solutions to the growing issue of water poverty in Wales. If you find this agreeable, please email our Campaign and Engagement Manger, Ellen Jones at ellen.jones@ccwater.org.uk

Yours Sincerely,



Rhodri Williams
CCW Chair (Wales)

[3] In the Independent Affordability Review water poverty is defined as spending more than 5 per cent of your household income on water bills after housing costs.
[4] Over 120,000 are customers through current water company social tariffs in Wales even if they are not necessarily all of those in 5% water poverty or what we call severe water poverty.

# Additional evidence to the Equality and Social Justice Committee, Oct 2021

1. **To what extent have levels of debt (including rent arrears and council tax) increased during the pandemic and what impact has this had on providers of public services such as social landlords and local authorities?**

The economic impact of the coronavirus pandemic has manifested in an increased number of housing association tenants in serious levels of rent arrears. Between March 2020 and March 2021 there was a 22% increase in the number of tenants owing more than thirteen weeks worth of rent to their housing association, a concerning trend for both tenants and housing associations.

However, the total arrears owed to housing associations by all tenants has remained stable over the pandemic (according to the Business Continuity Survey).[1] This is due to the significant measures put in place by housing associations in supporting tenants to avoid and resolve debt.

2. **To what extent does addiction impact on people who are in debt to local authorities and housing associations? How do you support people with addictions who are in debt?**

The majority of housing associations in Wales provide supported accommodation for a diverse range of people with additional needs, and this includes those struggling with substance misuse and addiction.

For example, Clwyd Alyn housing association works with people who have experienced substance/alcohol misuse, in partnership with Flintshire Local Voluntary Council and Flintshire Supporting People. The Nacro Flintshire Doorstop project is a temporary supported housing scheme for people 18+ who are homeless and require both tenancy support and support to overcome their substance/alcohol misuse issues.

[1] https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-08/registered-social-landlords-business-continuity-survey-june-2021.pdf

3. **How have Community Housing Cymru helped people with debt during the pandemic? How are people made aware of these services or signposted to specialist help, and what level of engagement is there?**

Community Housing Cymru (CHC) coordinated a sector response to support tenants through the Covid-19 crisis, including the Financial Assistance Protocol and the #WithYou campaign.

Under the Financial Assistance Protocol, housing associations and local authorities signed up to key commitments:

- To keep tenants safe and secure in their home
- To help tenants get the financial support they need
- To support tenants and find solutions if they have difficulty paying rent
- To do everything they can to support tenants' wellbeing.[2]

To showcase the work housing associations do and raise awareness of the support available to tenants, CHC developed the #WithYou campaign.[3] Examples of social media graphics are shown below.







Housing associations themselves have supported tenants throughout the pandemic:

- Wellbeing support
  - Urgent financial inclusion support for those affected by Covid-19
  - Support to residents to claim UC remotely, different methods (ongoing phone support, advice, info, guidance; produce step by step guide; using post more)
  - Wellbeing calls to elderly, vulnerable or disabled residents
  - Hints and tips to navigate the UC claim without needing to call the UC line
  - Proactive support to self-payers, in anticipation of decreased income
  - Contacting claimants re 20/21 change to rent and service charges
  - Increased resource for UC verification claims

- Financial support
  - Issued hardship fund grants

[2] https://financialassistanceprotocol.wales/
[3] https://financialassistanceprotocol.wales/with-you-campaign

    - Offering to defer or accept reduced rent payments for agreed period; accounts put on hold so arrears escalation is halted
    - Flexibility given to housing officers to relax and tailor residents' rent/arrears agreements as necessary
    - Making tenants aware of changes to the Universal Credit £20 uplift, and helping them prepare for this decrease in income

- Working with partners
    - Working and sharing good practice with local authorities and other housing associations
    - Developing a sector group to discuss the Debt Respite Scheme, working together to ensure they can support tenants regarding Breathing Space
    - Signposting tenants to community-based help groups and other agencies such as food banks
    - Embracing sector messaging, including the Financial Assistance Protocol and the #WithYou campaign

4. **The WLGA evidence says that the key to success is the level of engagement with the debtor, however the Bevan Foundation consider that council tax collection practices can often deepen problem debt. In what ways do local authorities and housing associations engage with and assist residents who have council tax arrears. How do they promote and raise awareness of Council Tax Reduction Schemes to ensure all those eligible make a claim?**

Housing associations provide a wide range of support around welfare, helping tenants to access benefits and maximise their income. Promoting the Council Tax Reduction Scheme, and making it clear that it must be applied for separately from Universal Credit, is a key part of this.

5. **Should the flexibilities that the Welsh Government introduced for the Discretionary Assistance Fund be made available for longer than until the end of March 2022, or on a permanent basis?**

Alongside the Wales Anti-Poverty Alliance, CHC has welcomed the flexibilities to the Discretionary Assistance Fund (DAF) that the Welsh Government brought in as a response to the COVID-19 pandemic.

The Bevan Foundation and Child Poverty Action Group recently raised concerns that the number of DAF applications sharply decreased in the run-up to the end of a period of flexibility. Financial hardship will not come to an end for people in Wales in 2022. We recommend that the Welsh Government builds on the recent success of the DAF in the short term, by taking the following steps:

- Allocating additional funding to the DAF to meet the anticipated additional demands on the scheme as a result of the cut to Universal Credit and Tax Credits, particularly for Emergency Assistance Payments.
- Promoting the DAF widely in the coming months, particularly amongst people most likely to face extreme hardship as a result of benefits cuts and the economic disruption of the pandemic, making eligibility criteria clear before the application stage.
- Extending the Tenancy Support Grant, currently only available to those in the private rented sector, to social housing tenants.

In the longer term, we would encourage the Welsh government to take a strategic look at how to support people in financial difficulties. A permanent extension to DAF flexibilities is one part of the picture, but this is still a very crisis-based approach. We would welcome consideration of how the Welsh government might contribute to the financial resilience of people in Wales on a more sustainable basis.

In addition, we fully support the Welsh government's income maximisation and benefit take-up activity. We note that this has been successful in ensuring people who are at risk of not claiming benefits get access to vital support. We welcome the continued investment that the Welsh government is making in this work in the final months of 2021, and we hope that this will continue going forward.

6. **Given the steps that were taken during the pandemic such as the moratorium on evictions, pausing debt collection, payment holidays and the furlough scheme, what concern is there that as these Covid measures end, debt levels will increase? What pressures might this put on public service providers?**

Many people in Wales will be facing hardship this winter, with multiple challenges compounding tenants' already low financial resilience.

A key challenge is the end of the Universal Credit £20 uplift. Our report 'A lot to lose' draws together data and testimony from housing association tenants across Wales and shows that the £20 per week that was added to Universal Credit during the Covid-19 pandemic has been transformational for many households, and fundamental to the ability of many tenants to manage their finances, find work and stay out of debt.[4] Tenant testimony revealed fears that, without the extra £20 per week, they would fall into debt with utilities and other financial commitments.

Food banks are braced for decreased donations and increased demand for food packages as low-income households are forced to prioritise bills over grocery shopping. Our report found that social housing tenants had been able to afford healthier, more nutritious food as a result of the uplift and that, given the overall increase in prices, they would now only be able to get 'the

[4] https://chcymru.org.uk/our-work/publications/chc-universal-credit-uplift-report-a-lot-to-lose

basics'. This lack of regular, nutritious meals has obvious implications for a person's mental and physical health, and their reliance on public services as their health deteriorates.

It is common for energy costs to increase in the winter when people are required to spend more time inside. With energy prices having risen dramatically this autumn, many households are anticipating a long, cold winter and the consequent negative impact on their health and wellbeing.

Our report 'A lot to lose' highlighted the impact of the cost of transport on those with low incomes. We were told that without enough money to afford the bus to regular hospital appointments, tenants worried that their health would deteriorate and they would require urgent medical attention and care. This has obvious implications for the NHS and social services, with crisis care being so much more expensive than prevention.

The Covid measures introduced at the start of the pandemic were very welcome and were anticipated to be temporary. Unfortunately, the challenges to people's financial resilience are continuing, and the need for support is ever more acute. Wales has been attempting to shift from crisis care to preventative services for some time, and we hope to see this trend continue at pace. With the support measures disappearing, however, it is inevitable that more people will fall (or fall further) into debt, rely on food banks and require more urgent intervention to their health and wellbeing.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**BIL PENSIYNAU A SWYDDI BARNWROL Y GWASANAETH CYHOEDDUS**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.

2. Cyflwynwyd Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol "y Bll") yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 19 Gorffennaf 2021. Mae'r Bil i'w weld yn: Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol.

**Amcanion polisi**

3. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw:

   i. mynd i'r afael â gwahaniaethu a gododd pan gaewyd cynlluniau pensiwn presennol y gwasanaeth cyhoeddus i rai aelodau rhwng 2014 a 2016;

   ii. cyflwyno newidiadau i gynlluniau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus er mwyn sicrhau bod pob gweithiwr cymwys yn y gwasanaeth cyhoeddus yn gallu manteisio ar gynlluniau buddion diffiniedig o ansawdd uchel ar sail deg a chyfartal;

   iii. sicrhau nad oes unrhyw ostyngiadau i fuddion aelodau ar ôl cwblhau elfen rheoli cost prisiadau 2016;

   iv. gwella'r telerau ar gyfer adnoddau barnwrol i gefnogi gweithrediad effeithiol y farnwriaeth, er mwyn bodloni gofynion y dyfodol; a

   v. rhoi pwerau i Drysorlys EM sefydlu cynllun pensiwn newydd UK Asset Resolution (UKAR) Limited.

**Crynodeb o'r Bil**

4. Noddir y Bil gan Drysorlys Ei Mawrhydi.

5. Nodir darpariaethau'r Bil ar draws pedair rhan:

   i. Mae Rhan 1 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chynlluniau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus: Mae Pennod 1 yn ymwneud â chynlluniau heblaw cynlluniau barnwrol a llywodraeth leol, er enghraifft cynlluniau diffoddwyr tân; mae Pennod 2 yn ymwneud â

chynlluniau barnwrol; mae Pennod 3 yn ymwneud â chynlluniau llywodraeth leol; ac mae Pennod 4 yn gwneud darpariaeth gyffredinol sy'n cynnwys cau cynlluniau gwaddol i gronni ymhellach o 1 Ebrill 2022.

ii. Mae Rhan 2 yn gwneud darpariaeth ar gyfer sefydlu cynlluniau pensiwn cyhoeddus newydd mewn perthynas â chynlluniau etifeddiaeth y sector bancio, sef ar gyfer Bradford & Bingley a Northern Rock a gymerwyd i berchnogaeth gyhoeddus yn 2007/2008.

iii. Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth ar gyfer swyddi barnwrol. Mae'n gosod oedran ymddeol gorfodol o 75 ar gyfer rhai swyddi barnwrol ac yn gwneud darpariaeth i farnwyr sy'n eistedd ar ôl ymddeol (ond nid y tu hwnt i 75 oed).

iv. Mae Rhan 4 yn gwneud darpariaeth gyffredinol, gan gynnwys mewn perthynas â graddau a chymhwyso: bydd darpariaethau'r Bil yn ymestyn ac yn gymwys i'r DU gyfan; bydd yr holl fesurau pensiwn sylweddol yn gymwys ledled y DU; a bydd rhai elfennau ar y mesurau barnwrol yn gymwys i Gymru a Lloegr yn unig.

**Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

6. Mae darpariaethau canlynol y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru:

i. Cymal 103 (Dyddiad ymddeol ar gyfer deiliaid swyddi barnwrol etc.) ac Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth i godi'r oedran ymddeol gorfodol i 75 ac mewn rhai achosion yn gosod uchafswm oedran ymddeol newydd o 75 ar gyfer swyddi barnwrol penodol. Mae'r darpariaethau'n gymwys ledled y DU i swyddi barnwrol ac yn gymwys i dribiwnlysoedd Cymru a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017.

ii. Mae cymalau 105 i 109 ac Atodlenni 3 a 4 yn gwneud darpariaeth sy'n gymwys ledled y DU ar gyfer swydd newydd sef swydd eistedd ar ôl ymddeol ar gyfer deiliaid swyddi barnwrol a gyflogwyd yn flaenorol ac sy'n talu ffioedd sydd wedi ymddeol:

a. mae cymal 105 (Swyddi eistedd ar ôl ymddeol) yn sefydlu swydd eistedd ar ôl ymddeol ar gyfer pob swydd farnwrol a restrir yn Atodlen 3, y mae Rhan 5 ohoni'n ymwneud â thribiwnlysoedd Cymru;

b. mae cymal 106 (Penodi i swyddi eistedd ar ôl ymddeol) yn ymwneud â phenodi person cymwys i swyddi eistedd ar ôl ymddeol;

c. mae cymal 107 (Penodi i swyddi eistedd ar ôl ymddeol: darpariaeth bellach) yn cynnwys darpariaethau pellach ar swyddi eistedd ar ôl ymddeol ac yn darparu na chaiff penodiad estyn y tu hwnt i 75 oed;

d. mae cymal 108 (Disgyblu a diswyddo) yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â diswyddo person sydd wedi'i benodi rhag swydd eistedd ar ôl ymddeol;

e. mae cymal 109 (Pŵer i ychwanegu swyddi newydd) yn rhoi pŵer i'r awdurdod cenedlaethol priodol (Gweinidogion Cymru mewn perthynas â meysydd datganoledig) ychwanegu swyddi newydd; a

f. mae cymal 110 (darpariaethau canlyniadol etc.) ac Atodlen 4 yn gwneud diwygiadau canlyniadol mewn cysylltiad â swyddi eistedd ar ôl ymddeol.

7. Mae “Tribiwnlysoedd” yn cael eu cadw i Senedd y DU trwy baragraff 9 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae “tribiwnlysoedd datganoledig”, er hynny, yn eithriad, sy'n golygu y gall y Senedd ddeddfu mewn perthynas â'r tribiwnlysoedd hynny yn unol â pharagraff 9(2). Mae “tribiwnlysoedd datganoledig” i gyd yn rhai y mae eu swyddogaethau yn arferadwy mewn perthynas â Chymru yn unig, ac nad ydynt yn ymwneud â materion a gadwyd yn ôl. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod “tribiwnlysoedd datganoledig” yn cynnwys y rhai a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017. Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru sy'n llywyddu dros dribiwnlysoedd adran 59 ac Uned Tribiwnlysoedd Cymru sy'n eu gweinyddu.

**Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil**

8. Mae'r darpariaethau perthnasol yn y Bil yn cynyddu'r oedran ymddeol gorfodol ar gyfer deiliaid swyddi barnwrol penodol o 70 i 75 ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer eistedd ar ôl ymddeol, ar yr amod nad yw penodiadau yn ymestyn y tu hwnt i'r oedran gorfodol hwnnw.

9. Pennwyd yr oedran ymddeol gorfodol presennol, sy’n gymwys i lysoedd ac i’r rhan fwyaf o’r tribiwnlysoedd sydd wedi’u cadw’n ôl, tua 25 mlynedd yn ôl. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae amlder a maint recriwtio barnwrol wedi cynyddu ar draws awdurdodaethau'r DU ond ers 2016, bu prinder mewn rhai ymarferion recriwtio. Mae cynyddu'r oedran ymddeol gorfodol i 75 yn ddull y bwriedir iddo helpu i gadw arbenigedd barnwrol gwerthfawr am fwy o amser tra'n cynyddu atyniad swydd farnwrol i nifer fwy o ymgeiswyr posibl ac o gefndiroedd amrywiol.

10. Bydd yr oedran ymddeol gorfodol diwygiedig yn gymwys i dribiwnlysoedd Cymru fel y'u diffinnir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017. O ran y tribiwnlysoedd hynny sydd ag oedran ymddeol gorfodol, bydd yr oedran hwnnw'n cynyddu o 70 i 75. Y tribiwnlysoedd hynny yw: Tribiwnlys Tir

Amaethyddol Cymru; Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru; Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru; a Thribiwnlys y Gymraeg. Ar gyfer Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru a Phanel Dyfarnu Cymru, nad oes ganddynt oedran ymddeol gorfodol ar hyn o bryd, bydd y Bil yn pennu uchafswm oedran ymddeol o 75.

11. Ar hyn o bryd, er y gall barnwyr cyflogedig wneud cais i eistedd ar ôl ymddeol, nid yw'r opsiwn hwn ar gael yn yr un ffordd i farnwyr y telir ffioedd iddynt. Bydd darpariaethau yn y Bil yn unioni'r driniaeth wahanol rhwng barnwyr cyflogedig a barnwyr y telir ffioedd iddynt ac yn darparu ar gyfer hyblygrwydd i ddiwallu anghenion busnes drwy farnwyr sy'n eistedd ar ôl ymddeol, gan sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei weinyddu'n effeithiol. Rhagwelir y bydd yr oedran ymddeol gorfodol uwch yn arwain at welliannau mewn recriwtio a chadw staff ac y bydd, dros amser, yn lleihau'r angen busnes i farnwyr eistedd ar ôl ymddeol.

12. Bydd oedran ymddeol gorfodol cyson ac ymagwedd gyson at eistedd ar ôl ymddeol ledled Cymru a Lloegr yn osgoi dewis awdurdodaeth gan ymgeiswyr ar gyfer swydd farnwrol a allai, er enghraifft, ddewis gwneud cais am benodiad yng Nghymru a Lloegr yn hytrach nag i dribiwnlys yng Nghymru pe bai'r trefniadau presennol yn parhau yng Nghymru yjn unig gan y byddai ganddynt, ar y sail honno, yrfa farnwrol fyrrach a allai fod yn llai hyblyg yng Nghymru nag yn Lloegr. Yn ogystal, byddai sefyllfa wahaniaethol yn llesteirio traws-leoli rhwng barnwyr yn y tribiwnlysoedd yng Nghymru a'r tribiwnlysoedd Haen Gyntaf a Haen Uchaf. Am y rhesymau hyn, mae budd i'r system gyfiawnder yng Nghymru i'r darpariaethau yn y Bil fod yn gymwys i Gymru.

13. Bydd prosiect Comisiwn y Gyfraith sy'n mynd rhagddo ar ddiwygio'r Tribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru yn cyflwyno adroddiad yn ystod hydref 2021. Bydd bwrw ymlaen ag adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn cynnig y cyfle i ddatblygu polisi newydd sy'n benodol i Gymru sy'n ymwneud â thribiwnlysoedd yng Nghymru, gan gynnwys ar swyddi barnwrol, ac i gydgyfnerthu'r broses o'i roi ar waith yn neddfwriaeth Cymru. Bydd y newidiadau a nodir bellach yn y Bil, er hynny, yn cael eu gwneud a'u rhoi ar waith yn llawer cynt nag a fydd yn wir mewn perthynas ag unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol mewn ymateb i adroddiad Comisiwn y Gyfraith.

## Goblygiadau ariannol

14. Mae Asesiad Effaith Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil [1] yn amcangyfrif bod Cynyddu'r oedran ymddeol gorfodol i 75 yn cynnig y potensial i gynhyrchu arbedion mewn rhwymedigaethau pensiwn, gan ddibynnu ar batrymau recriwtio barnwrol. Amcangyfrifir bod hyn rhwng £37 miliwn a £97 miliwn. Mae goblygiadau ariannol y darpariaethau cysylltiedig ar gyfer eistedd ar ôl ymddeol yn ddarostyngedig i nifer o newidynnau, gan gynnwys yr angen

[1] Gweler tudalen 25, paragraff 329 et seq. yn Asesiad o Effeithiau Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol

busnes penodol i ddeiliaid swyddi barnwrol sydd wedi ymddeol eistedd ar ôl ymddeol ac i ba raddau y gallai personau cymwys ddymuno ymgymryd â'r swyddi hynny yng nghyd-destun gallu aros yn eu swydd o ganlyniad i'r oedran ymddeol gorfodol uwch. nid yw'r costau hyn wedi'u hasesu, felly.

**Diwygio darpariaethau'r Bil**

15. Gall y Bil gael ei ddiwygio yn ystod ei hynt drwy'r Senedd ac efallai y bydd angen adolygu unrhyw ddiwygiadau o'r fath er mwyn penderfynu a ydynt yn codi unrhyw faterion cymhwysedd neu faterion sy'n ymwneud â swyddogaethau Gweinidogion Cymru. O dan yr amgylchiadau hyn, ac er mwyn bodloni gofynion Rheol Sefydlog 29, efallai y bydd angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol. Felly, bydd diwygiadau i'r Bil yn cael eu hadolygu'n barhaus.

**Casgliad**

16. Bwriad cynigion Llywodraeth y DU yn y Bil yw unioni'r driniaeth wahaniaethol rhwng barnwyr cyflogedig a barnwyr y telir ffi iddynt, a darparu ar gyfer hyblygrwydd i ddiwallu anghenion busnes drwy ganiatáu i farnwyr eistedd ar ôl ymddeol. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol gwneud darpariaeth gyfatebol ar gyfer tribiwnlysoedd Cymru fel y'u diffinnir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017, a defnyddio'r Bil i wneud y newidiadau deddfwriaethol gofynnol ar hyn o bryd, gan nodi'r prosiect sydd ar y gweill gan Gomisiwn y Gyfraith a datblygiadau polisi sy'n benodol i Gymru mewn perthynas â thribiwnlysoedd yng Nghymru.

**Mick Antoniw AS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**11 Awst 2021**

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Archwilio Cymru
Audit Wales

Mark Isherwood AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a
Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Y Senedd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

**Cyfeirnod:** AC/281/caf
**Dyddiad cyhoeddi:** 31 Awst 2021

Annwyl Mark,

## Cyflawni ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol: Y stori hyd yma – ymateb i argymhellion

Ysgrifennaf atoch i ymateb yn ffurfiol i Argymhelliad 12 Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn. Mae'r tîm clercio hefyd wedi fy ngwahodd i roi sylwadau ar Argymhelliad 11. Gweler isod fy ymateb a'm sylwadau.

**Argymhelliad 12.**

**Wrth i ni ddechrau ar yr ail gyfnod adrodd, rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru godi ei ddisgwyliadau o gyrff cyhoeddus a pheidio ag oedi cyn tynnu sylw at fabwysiadu gwael o'r egwyddor datblygu cynaliadwy - DERBYNNWYD**

Mae'r argymhelliad hwn yn cyd-fynd yn fras â chyfeiriad teithio ein gwaith o dan y Ddeddf a'r dull y bydd fy archwilwyr yn ei gymryd wrth lunio barn ar y graddau y mae cyrff cyhoeddus yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Pan wnaethom gynnal ein gwaith arholiadau o dan y Ddeddf yn y cyfnod adrodd blaenorol, gwnaethom nodi rhai egwyddorion i lywio ein gwaith. Un o'r egwyddorion hyn oedd:

"Hanfod y Ddeddf yw newid ymddygiad a setiau meddwl a bydd y rhain yn cymryd amser i ymsefydlu."

Fodd bynnag, nodwyd hefyd:

"Dros y tymor canolig a'r tymor hir, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn disgwyl i gyrff cyhoeddus allu dangos sut mae'r Ddeddf yn llywio'r hyn y maent yn ei wneud."

Wrth i ni symud i'r ail gyfnod adrodd 2020-2025, rydym wedi diwygio ein dull o ymdrin â'n gwaith o dan y Ddeddf. Fel rhan o hyn rydym wedi cyhoeddi canllawiau archwilio newydd a diwygiedig i'n harchwilwyr, ac mae rhan o'r canllawiau hyn yn pwysleisio y byddwn yn codi ein disgwyliadau o gyrff archwiliedig yn unol â'n hegwyddor gynharach a nodir uchod. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i fynd at ein gwaith o dan y Ddeddf mewn ffordd sy'n ceisio helpu cyrff cyhoeddus i hunan-fyfyrio ac archwilio'r hyn y gallent ei wneud yn wahanol ac yn annog cyrff cyhoeddus i ddatblygu eu gweithredoedd eu hunain wrth ymateb i'n canfyddiadau.

Er i'r Pwyllgor nodi yn ei adroddiad yr ysbryd cydweithredol y gwnaethom ddatblygu ein dull archwilio ynddo yn y cyfnod adrodd cyntaf, nid yw hyn yn golygu nad ydym wedi herio cyrff cyhoeddus hyd yma. Nododd ein hadroddiadau lleol dros y cyfnod adrodd blaenorol, sy'n cwmpasu pob un o'r 44 corff a restrir yn y Ddeddf, gryfderau a meysydd i'w gwella o ran i ba raddau yr oedd pob corff wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Yn fy adroddiad statudol ym mis Mai 2020, a dynnodd ar y gwaith archwilio lleol hwnnw, dywedais:

"Yn gyffredinol, rydym wedi canfod y gall cyrff cyhoeddus ddangos eu bod yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Ond mae'n amlwg hefyd bod yn rhaid iddynt wella'r ffordd y maent yn cymhwyso pob un o'r pum ffordd o weithio os ydynt yn mynd i effeithio ar newid diwylliannol gwirioneddol – hanfod y Ddeddf. Yn ystod y cyfnod adrodd pum mlynedd nesaf, bydd angen i gyrff cyhoeddus ledled Cymru gydweithio i fabwysiadu dull mwy system gyfan o wella llesiant os ydynt am fynd â'u gwaith i'r lefel nesaf."

Yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwnnw, nodais hefyd:

"Yn ystod y cyfnod adrodd nesaf, byddwn yn disgwyl gweld cyrff cyhoeddus yn defnyddio fframwaith y Ddeddf i fynd i'r afael â'r heriau [a nodir yn ein hadroddiad] a heriau eraill."

Felly, credaf fod Archwilio Cymru mewn sefyllfa dda i weithredu yn unol ag ysbryd yr argymhelliad hwn. Serch hynny, byddwn yn parhau i adrodd yn annibynnol, heb ofn na ffafriaeth, ac mewn ffordd sy'n dangos ein bod yn deg yn ein barn yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael. Er enghraifft, mewn adroddiad archwilio lleol a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod adrodd presennol, gwnaethom dynnu sylw at y ffaith, mewn un cyngor, fod lle sylweddol iddo gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy a chanolbwyntio ar gyflawni ei amcanion llesiant drwy ei gontract hamdden allanol.

**Argymhelliad 11.**

**Rhaid i gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sicrhau bod y pum ffordd o weithio yn rhan annatod o'u cynlluniau ar gyfer adferiad o bandemig COVID-19. Rydym yn argymell na chollir unrhyw enillion y maent wedi'u gwneud yn eu hymateb uniongyrchol i'r pandemig, a'u bod yn symud eu ffocws o ddydd i ddydd ac atal.**

Yr wyf yn cydnabod pwysigrwydd cyrff cyhoeddus sy'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth iddynt symud i'r cyfnod adfer. Mae hwn yn gyfle pwysig i gyrff cyhoeddus ddangos bod y pum ffordd o weithio'n cael eu cymhwyso i gydbwyso anghenion y presennol a'r dyfodol ac i sicrhau bod y profiad a gafwyd yn ystod y pandemig yn llywio cynlluniau tymor byr a thymor canolig i hirdymor.

Un maes ffocws allweddol ar gyfer ein gwaith archwilio yw'r cynlluniau y mae cyrff cyhoeddus yn eu rhoi ar waith i wella o bandemig COVID-19, a bydd yn parhau i fod. Er enghraifft, dros 2021-22 rydym yn cynnal adolygiad ar draws y 22 prif gyngor o'r enw 'Llamu Ymlaen', a fydd yn archwilio sut y maent yn defnyddio'r profiad ac yn myfyrio ar y newidiadau sydd wedi codi o'r pandemig i gynnal, addasu a thrawsnewid gwasanaethau. Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar sut mae cynghorau'n gwneud newidiadau yn y defnydd o'u hadeiladau ac yn rheoli eu gweithlu. Rydym yn ystyried i ba raddau y mae cynghorau'n gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ogystal â'r graddau y maent yn rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio eu hadnoddau. Yn dilyn yr adolygiad hwn byddwn yn cyhoeddi adroddiad lleol ar gyfer pob prif gyngor, yn ogystal ag adroddiad cryno cenedlaethol, a byddwn yn cefnogi'r rhain gyda digwyddiadau'r Gyfnewidfa Arfer Da (GPX).

Bydd ein hallbynnau Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus sydd ar ddod hefyd yn cael eu lleoli yng nghyd-destun effaith y pandemig ac adferiad ohono. Bydd ein prif adroddiad yn tynnu sylw at yr hyn a ystyriwn yn rhai o'r materion allweddol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn y blynyddoedd i ddod ac agweddau pwysig ar drawsnewid gwasanaethau lle byddwn yn canolbwyntio ein sylw.

Yn gywir

**ADRIAN CROMPTON**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

**Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (5ed Senedd) Cyflawni ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol: Y stori hyd yn hyn.**

---

## ARGYMHELLIAD 1

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o sut y gall ddarparu sicrwydd ariannol tymor hwy i'r cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf hon. Dylai'r adolygiad hwn gael ei gwblhau mewn pryd i lywio penderfyniadau cyllido mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2023-24.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae'n uchelgais gan Lywodraeth Cymru o hyd i ddarparu cyllidebau tymor hwy i'n partneriaid a'n rhanddeiliaid ac rydym yn dal i fod yn barod i ystyried opsiynau i roi sicrwydd lle y bo hyn yn bosibl, fel y nodir yn ein Cynllun Gwella'r Gyllideb a gyhoeddir ar y cyd â'n Cyllideb Ddrafft. Croesewir y ffaith bod y Pwyllgor yn cydnabod nad yw Llywodraeth y DU yn darparu'r ffigurau cyllido ymlaen llaw, ac mae hyn wedi golygu na fu modd i Lywodraeth Cymru gynnig setliadau cyllido amlflwydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i gyhoeddi setliadau amlflwydd gyda'r rhagolygon ar gyfer Adolygiad Gwariant y DU sydd ar y gorwel a'r Gyllideb ar 27 Hydref yn awgrymu y gallem ddisgwyl setliad 3 blynedd.

O dan y trefniadau ariannu presennol ar gyfer cyrff cyhoeddus, rydym eisoes yn rhoi amcan o'r cyllid ar gyfer y blynyddoedd i ddod lle y bo hyn yn bosibl. Rydym yn symud tuag at raglen o Gylchoedd Gwaith Tymor y Llywodraeth ar gyfer Cyrff Hyd Braich yng Nghymru, a bydd hyn yn fwy cynhyrchiol o lawer os cawn setliadau amlflwydd gan Lywodraeth y DU, a fyddai'n ein galluogi i roi cyllidebau dangosol tymor hwy i gyrff.

**Goblygiadau ariannol**

Bydd y gwaith o ystyried opsiynau o bosibl yn cael ei wneud o fewn adnoddau presennol.

---

## ARGYMHELLIAD 2

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o sut y caiff gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ei gyllido. Dylai'r adolygiad ddechrau heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl etholiad nesaf y Senedd, a dylid gweithredu casgliadau'r adolygiad mewn pryd iddynt lywio dyraniadau cyllid ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24. Dylid cynnal yr adolygiad gan lynu at yr egwyddorion a ganlyn:

- Dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus allu cael mynediad at gronfeydd cyfun, wedi'u tynnu o adnoddau eu haelodau statudol, y gallent naill ai eu cadw fel endidau corfforaethol ffurfiol neu drwy drefniadau anffurfiol.
- Dylid penderfynu ar gyllidebau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ôl canllawiau clir a chyson wedi'u pennu gan Lywodraeth Cymru.

- Dylai cyllidebau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gael eu llywio gan y rôl y mae Llywodraeth Cymru wedi ei gosod ar eu cyfer.
- Dylai'r cyfraniadau y mae'n ofynnol i bob sefydliad eu gwneud i gyllido Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gydnabod yr ymrwymiadau ehangach sydd ganddynt i bartneriaethau eraill (gan gynnwys i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill).

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi bod o'r farn mai mater i'r BGCau yw penderfynu sut maent yn ariannu eu gwaith, gan gynnwys cyfuno cyllidebau. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw pob partner wedi cael cystal llwyddiant yn hyn o beth ac mae'n bosibl bod lle i gefnogi dull cyffredin o gyfuno adnoddau. Efallai y bydd rhai partneriaid yn gwerthfawrogi canllawiau ychwanegol ar yr hyblygrwydd a geir o ran y cyllid sydd ar gael o ffynonellau eraill.

Byddwn yn gweithio gyda BGCau i gael dealltwriaeth well o'r adnoddau maent wedi'u cyfuno – neu wedi ceisio'u cyfuno – er mwyn nodi a rhannu arferion da. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn ystyried y pecyn o gyllid a chymorth rydym yn ei gynnig yn uniongyrchol i'r BGCau bob blwyddyn a byddwn yn ystyried ffyrdd o godi ymwybyddiaeth am yr amrywiaeth o ffynonellau cyllid sydd ar gael iddynt.

Y flaenoriaeth uniongyrchol yw cefnogi'r gwaith o gyflawni'r asesiadau lleol o lesiant, y mae angen eu cynnal erbyn y gwanwyn. Er nad yw'r gwaith hwn yn debygol o ddechrau ar yr adeg a argymhellir gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, byddwn yn ceisio darparu canllawiau i BGCau erbyn iddynt orffen paratoi eu cynlluniau llesiant lleol a rhoi trefniadau ar waith i gyllido'r gwaith o'u cyflawni.

**Goblygiadau ariannol**

Byddai unrhyw adolygiad o'r dull cyllido yn cael ei gynnal o fewn yr adnoddau presennol.

---

**ARGYMHELLIAD 5**

Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau gyda chynlluniau i bennu a chyhoeddi cerrig milltir fel sy'n ofynnol gan adran 10 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl etholiadau'r Senedd yn 2021.

**ARGYMHELLIAD 6**

Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau gyda chynlluniau i adolygu a chyhoeddi dangosyddion llesiant cenedlaethol diwygiedig heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl etholiadau'r Senedd yn 2021. Dylai'r adolygiad gydnabod yr heriau a'r cyfleoedd a gyflwynir gan y pandemig Covid-19 ac ystyried barn cyrff cyhoeddus, y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol y sector preifat a'r sector gwirfoddol.

**Ymateb (5 a 6): Derbyn mewn egwyddor**

Gwnaethom gyhoeddi ymgynghoriad ar y cerrig milltir a'r dangosyddion cenedlaethol ar 1 Medi 2021 ac rydym yn ymrwymedig i gyhoeddi'r gyfres gyntaf o gerrig milltir a'r dangosyddion cenedlaethol wedi'u diweddaru erbyn mis Rhagfyr 2021.

Rydym yn cytuno ei bod yn bwysig symud yn gyflym i ddatblygu'r Cerrig Milltir Cenedlaethol ac adolygu a gwneud mân newidiadau i'r Dangosyddion Cenedlaethol, ond mae'r un mor bwysig ein bod yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng symud yn gyflym a gwneud gwaith ymgysylltu o safon. Credwn fod yr amserlen a amlinellir yn y map trywydd cyflawni yn dal i adlewyrchu'r cydbwysedd cywir ar y cyfan.

Mae'r amserlen bresennol eisoes yn heriol a byddai unrhyw ymgais i gyhoeddi fis yn gynt er mwyn cydymffurfio â'r argymhelliad yn cwtogi'n sylweddol ar yr amser a neilltuwyd ar hyn o bryd ar gyfer cydweithio â rhanddeiliaid neu, fel arall, yn effeithio'n sylweddol ar ein cynlluniau i gynnal ymgynghoriad ysgrifenedig yn yr hydref. O ystyried bod gan Weinidogion Cymru ddyletswydd statudol i ymgynghori â chyrff cyhoeddus ar y Dangosyddion a'r Cerrig Milltir Cenedlaethol cyn iddynt gael eu pennu, rydym o'r farn y byddai ceisio newid amserlen y map trywydd ar y cam hwn yn fwy o rwystr nag o fudd i'r gwaith o gyflawni'r Cerrig Milltir Cenedlaethol a'r Dangosyddion Cenedlaethol diwygiedig i Gymru.

**Goblygiadau ariannol**

Dim, caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli.

---

**ARGYMHELLIAD 7**

Rhaid i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad o’r cyrff cyhoeddus sy’n ddarostyngedig i’r Ddeddf. Dylid gweithredu canfyddiadau’r adolygiad hwnnw mewn digon o amser i unrhyw gyrff cyhoeddus sydd newydd eu hychwanegu dderbyn eu dyraniadau cyllid a’u llythyrau cylch gwaith cysylltiedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23. Dylai’r adolygiad:

- ystyried yr effaith y byddai cynnwys/hepgor unrhyw gorff cyhoeddus penodol yn ei chael ar weithredu’r Ddeddf ar lefel genedlaethol;
- cydnabod y bydd cynnwys unrhyw gyrff cyhoeddus ychwanegol yn arwain at ofynion adrodd, monitro ac archwilio ychwanegol ac y bydd hyn yn anochel yn arwain at oblygiadau ariannol/adnoddau;
- nodi’n glir ddisgwyliadau cyrff cyhoeddus nad ydynt yn ddarostyngedig i’r Ddeddf yn ffurfiol mewn perthynas â datblygu cynaliadwy, a sut y bydd y disgwyliadau hynny’n cael eu monitro a’u gorfodi; a
- nodi’n glir y meini prawf ar gyfer gwneud penderfyniadau o ran cynnwys/eithrio a’r broses neu’r amserlenni ar gyfer cychwyn adolygiadau yn y dyfodol.

**Ymateb:  Derbyn mewn egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i wireddu buddiannau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn cydnabod gwerth ystyried a ddylai'r ddyletswydd

llesiant fod yn gymwys i fwy o gyrff cyhoeddus. Byddwn yn cynnal adolygiad o'r cyrff sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd y pedwar prawf a gymhwyswyd wrth benderfynu pa gyrff cyhoeddus oedd yn ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 pan gafodd ei datblygu yn sail i'r gwaith hwn.

O ystyried yr angen i ymgysylltu â phob parti yr effeithir arno a deall y goblygiadau i'r cyfryw gyrff, rydym yn bwriadu cwblhau'r adolygiad erbyn haf 2022. Bydd hyn yn ein galluogi i adolygu'r rhestr ochr yn ochr â'r cynigion ar gyfer y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) a fydd yn gosod dyletswydd partneriaeth gymdeithasol ar y cyrff sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd cadw cysylltiad agos rhwng y ddyletswydd llesiant a'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn sicrhau cysondeb rhwng y ddau ddarn o ddeddfwriaeth, ac yn ategu'r rôl sydd gan gyflogeion i'w chwarae wrth lywio dyfodol Cymru.

**Goblygiadau ariannol**

Caiff goblygiadau ariannol ymestyn y ddyletswydd i gyrff ychwanegol eu hasesu fel rhan o Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Bydd costau'n gysylltiedig ag ymgynghori ac ymgysylltu â chyrff cyhoeddus, costau ar gyrff a goblygiadau i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.

---

**ARGYMHELLIAD 8**

Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau gyda chynlluniau i lunio llythyrau cylch gwaith mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ar ôl ymgynghori â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Dylai'r llythyrau cylch gwaith newydd gael eu defnyddio erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2022-23 fan bellaf.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi symud i Lythyrau Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth ers etholiad Senedd Cymru ar 6 Mai 2021. Caiff y Cylchoedd Gwaith hyn eu cymhwyso o flwyddyn ariannol 2021-22 ymlaen. Mae Fframwaith Llythyrau Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth yn cynnwys gofyniad i fodloni'r ddyletswydd llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Goblygiadau ariannol**

Dim, caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli.

---

**ARGYMHELLIAD 9**

Ni chaiff Llywodraeth Cymru greu unrhyw bartneriaethau na strwythurau cydweithredol newydd i gyflawni unrhyw swyddogaethau oni bai ei bod wedi archwilio'n llawn:

- a allai strwythurau partneriaeth presennol, yn hytrach, gyflawni'r swyddogaethau hynny;
- a allai'r strwythur newydd ddisodli'r rhai presennol;

- a all y swyddogaethau gael eu cyflawni gan gyrff cyhoeddus sy'n bodoli eisoes; ac ar ôl ymgynghori â chyrff cyhoeddus y mae'r newidiadau arfaethedig yn effeithio arnynt, a all y cyrff cyhoeddus hynny ddangos cefnogaeth i'r strwythurau newydd.

**ARGYMHELLIAD 10**

Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl etholiadau nesaf y Senedd sy'n nodi:

- sut y mae gwaith Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Cyd-bwyllgorau Corfforaethol, ochr yn ochr â strwythurau partneriaeth mawr eraill, yn rhyngweithio â'i gilydd o fewn fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gydag enghreifftiau o arfer da;
- pa hyblygrwydd sydd gan bartneriaethau i wneud penderfyniadau i drefnu eu hunain yn well ac yn fwy effeithlon;
- lle gall partneriaethau a sefydliadau weithredu i symleiddio neu gydgrynhoi'r strwythurau llywodraethu ac adrodd i leihau ailadrodd a dyblygu;
- barn Llywodraeth Cymru ar dirwedd strwythurau partneriaeth dros y cyfnod adrodd nesaf (2020-25), gan gynnwys unrhyw gynigion i ddiddymu neu gydgrynhoi'r strwythurau hynny.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Roedd canlyniad yr *Adolygiad o Bartneriaethau Strategol*, y cytunwyd arno gan Gyngor Partneriaeth Cymru, yn cynnwys argymhellion clir i beidio â chreu partneriaethau newydd nac ychwanegu at gylch gwaith partneriaethau presennol heb ystyried y sefyllfa bresennol. Nodwyd nad oedd cefnogaeth o blaid diddymu unrhyw bartneriaethau penodol ac roedd pwyslais ar gefnogi partneriaethau i fynd ati eu hunain i symleiddio eu trefniadau lleol. Daeth yr adroddiad i'r casgliad y dylai'r newid ddigwydd o'r gwaelod i fyny, yn hytrach na chael ei orfodi gan Lywodraeth Cymru.

Credwn y bydd cyflawni yn erbyn argymhellion yr adolygiad hefyd yn cyflawni nodau argymhellion 9 a 10. Byddwn yn cydweithio'n agos â Chadeiryddion y partneriaethau strategol i gefnogi camau gweithredu lleol er mwyn cysoni a symleiddio'r trefniadau yn y ffordd fwyaf synhwyrol ar gyfer yr ardal honno. Yn unol ag argymhellion yr *Adolygiad o Bartneriaethau Strategol*, bydd Cyngor Partneriaeth Cymru yn monitro ac yn gwerthuso cynnydd. Fel rhan o'i adolygiad rheolaidd o'r cynnydd, bydd yn pennu pa gamau gweithredu pellach y gall fod eu hangen.

Fodd bynnag, y blaenoriaethau uniongyrchol ar gyfer llywodraeth leol yw rhoi Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ar waith yn llwyddiannus.

**Goblygiadau ariannol**

Caiff yr ymrwymiad hwn ei fodloni o fewn yr adnoddau staff presennol.

Trwy e-bost

3ydd Medi 2021

Annwyl Mark,

Diolch am y cyfle i ymateb i'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus **'Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn'** a gyhoeddwyd ar 24 Mawrth 2021.

Rwy'n croesawu canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad a oedd yn adlewyrchu fy nhystiolaeth, canfyddiadau fy monitro ac asesu statudol a fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw'r rhaglen newid diwylliannol fwyaf y mae sector cyhoeddus Cymru wedi'i phrofi erioed ac rwy'n falch o'r gwaith sy'n cael ei wneud i gyflawni ei ddyheadau. Mae unrhyw newid diwylliannol yn cymryd amser, ond mae newidiadau yn y maint a ragwelir gan y Ddeddf yn golygu mai cenhadaeth hirdymor yw hon yn hytrach nag ateb tymor byr. Cymru yw'r unig wlad i ddeddfu fel hyn, gan ddefnyddio dull tymor hir i edrych ar achosion sylfaenol problemau trwy gyfraith sy'n cael ei hedmygu yn fyd-eang.

O ran cynnydd cyffredinol, dros y pum mlynedd diwethaf, bu newid amlwg yn yr ymrwymiad gwleidyddol i'r Ddeddf ac rwy'n dechrau gweld cyrff cyhoeddus yn newid y ffordd y maent yn darparu ac yn dylunio gwasanaethau. Er enghraifft, y ffordd yr eir ati i gynllunio trafnidiaeth; y ffordd y mae ysgolion, cartrefi ac adeiladau cyhoeddus newydd yn cael eu cynllunio i fod yn fwy cynaliadwy; diwygio'r cwricwlwm, gan symud y tu hwnt i ddarparu 'gwasanaethau' i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i gymunedau. Rwy'n gweld gwleidyddion er enghraifft yn gwrthod y 'status quo' wrth fynd i'r afael â thagfeydd trwy adeiladu mwy o ffyrdd; yn lle hynny, maen nhw'n chwilio am atebion sy'n well i lesiant pobl a'r blaned.

Mae'r Ddeddf yn darparu offeryn defnyddiol i wneuthurwyr newid herio'r system. Rwy'n falch o chwarae rôl wrth herio'r atalyddion ond erys heriau cyllido.

Ar hyn o bryd nid oes gennyf yr adnoddau i ddelio â'r holl faterion sy'n gysylltiedig â gweithredu newid diwylliannol mor eang ac, mae angen mwy o arian ar gyfer cynhwysedd, datblygu arweinyddiaeth a chefnogaeth ar gyfer newid trawsnewidiol.

Yn ogystal â chael cyllideb gymedrol, o ystyried cylch gwaith eang fy rôl, nodais bryder eisoes yn fy Amcangyfrifon Statudol 2019-20 a 20-21 ynghylch sut y byddai fy lefel ariannu yn cael effaith negyddol ar ansawdd a lefel fy nghefnogaeth a chyngor i Gyrff Cyhoeddus. Mae costau pensiwn uwch, a chodiadau cyflog cymedrol blynyddol yn unol â chyfraddau Llywodraeth Cymru yn bwyta yn fy nghyllid gwastad o flwyddyn i flwyddyn.

Mae tanariannu llinell wastad yn golygu y gallaf wneud llai mewn termau go iawn tra bod disgwyliadau a galwadau am gefnogaeth a chyngor ar draws 44 o gyrff cyhoeddus yn tyfu (yr wyf i ac Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi canfod nad oes ganddynt adnoddau eu hunain i gefnogi'r newid diwylliannol sy'n ofynnol gan y Ddeddf). Mae lefel y gefnogaeth a'r cyngor a gynigir i Gyrff Cyhoeddus a Gweinidogion yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn. Roedd ceisiadau am gefnogaeth a chyngor i fyny 44% yn 2019-20 o 2018-19.

Ar ben hynny, mae'n ymddangos y bydd y galw hwn am wasanaethau statudol yn cynyddu: Mae'r asesiad effaith rheoliadol (RIA) mwyaf diweddar sy'n ymwneud â sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (CJCs) yn y Mesur Llywodraeth Leol ac Etholiadau yn nodi bod costau i'm swyddfa yn ddim er fy mod yn darparu costiadau manwl i swyddogion.
Dof yn ôl at bwysigrwydd hyn, mewn perthynas â gweithredu'r argymhellion isod.

Mae adroddiad **'Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn'** a'i argymhellion yn adeiladu ar y pryderon a'r cyngor y tynnais sylw atynt yn fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 ynghylch y rhwystrau systemig i gynnydd y mae angen mynd i'r afael â hwy.

Mae fy myfyrdodau isod yn ymateb yn uniongyrchol i'r argymhellion canlynol a wnaed gan y Pwyllgor:

**Argymhelliad 3:** Dylai Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a chyrff cyhoeddus Cymru sicrhau eu bod yn datblygu perthnasoedd adeiladol. Mae'r anghysondeb yn eu perthnasoedd wedi cyfyngu effaith gwaith y Comisiynydd.

**Argymhelliad 4:** Dylai Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol flaenoriaethu cefnogi cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gyflawni'r ddeddfwriaeth hon.

**Argymhelliad 11:** Rhaid i gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sicrhau bod y pum ffordd o weithio wedi'u hymgorffori yn eu cynlluniau ar gyfer adferiad o bandemig Covid-19. Rydym yn argymell na chollir unrhyw enillion y maent wedi'u gwneud yn eu hymateb uniongyrchol i'r pandemig, a'u bod yn symud eu ffocws o'r dydd i ddydd i'r tymor hir ac atal.

***Fy ymateb i:* Argymhelliad 3:** Dylai Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a chyrff cyhoeddus Cymru sicrhau eu bod yn datblygu perthnasoedd adeiladol. Mae'r anghysondeb yn eu perthnasoedd wedi cyfyngu effaith gwaith y Comisiynydd.

Yn ystod fy nghyfnod fel Comisiynydd, rwyf wedi gweithio'n agos gyda chyrff cyhoeddus ledled Cymru, gan ddarparu cyngor, arweiniad a chefnogaeth iddynt wrth gymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Roeddwn yn falch bod llawer o gyrff cyhoeddus a'r Pwyllgor yn cydnabod bod y gefnogaeth hon yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, mae'r canfyddiad hwn yn adlewyrchu realiti'r her amhosibl o gefnogi 44 o gyrff cyhoeddus ar draws pob maes polisi, gan sicrhau hefyd nad yw deddfwriaeth a chanllawiau polisi newydd a ddaw gan Lywodraeth Cymru yn tanseilio'r Ddeddf a gallu cyrff cyhoeddus eraill i'w gweithredu. Ni all fy swyddfa ateb y gofynion hyn ar gyfer pob corff cyhoeddus gan nad oes gennym adnoddau digonol. Felly nid yw'n syndod bod y rhai yr ydym wedi gallu helpu i ddod o hyd i'r gefnogaeth honno'n werthfawr ac eraill eisiau mwy o'n hamser.

"Mae Chwaraeon Cymru wedi gweld cefnogaeth, adnoddau a chyngor y tîm yn amhrisiadwy. Mae sut mae hyn ar gael yn gyson i bob corff cyhoeddus yn her." (Chwaraeon Cymru)

"Mae ein perthynas â swyddfa'r Comisiynydd yn rhagorol. Rwy'n credu eu bod yn hynod wybodus, yn frwdfrydig iawn, yn gefnogol ac yn debyg i Swyddfa Archwilio Cymru, nid yn unig ar y Ddeddf, ond ar ein

busnes ehangach lle maen nhw'n gallu rhoi barn i ni ar sut rydyn ni'n gwneud, sut rydym yn gwario arian cyhoeddus, ond yn bwysicach fyth, yn ein cyfeirio at arfer da a meysydd eraill efallai yr hoffem eu harchwilio." (Ymddiriedolaeth GIG Velindre)

"Cawsom lawer o gysylltiad â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a chawsom lawer o gefnogaeth ymarferol... Mae'r gefnogaeth a gawsom gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi bod yn ddefnyddiol iawn. Roeddent yn barod i deithio i Ogledd Cymru i roi gwybodaeth ychwanegol, cyflwyniadau, cefnogaeth i ni ar sut i wreiddio'r offer. Rwy'n credu bod hwnnw'n cael ei ystyried yn gynnig cefnogol iawn i bob awdurdod ledled Gogledd Cymru." (Cyngor Ynys Môn)

"Rydyn ni wedi defnyddio offer, adnoddau a gwybodaeth y Comisiynydd i sicrhau bod adnoddau ar gael ar draws y sefydliad... Cefnogaeth a mewnbwn gan y Comisiynydd yn ddefnyddiol iawn, iawn." (Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan)

Mae'r berthynas barhaus hon â chyrff cyhoeddus yn cael ei nodi ymhellach yn y ceisiadau am gefnogaeth y mae fy swyddfa yn eu derbyn. Ers mis Mai 2018, rwyf wedi derbyn 892 o geisiadau am gefnogaeth, daeth 319 ohonynt (~36%) gan gyrff cyhoeddus. O'r rhain, mae 136 (~43% o'r holl geisiadau gan gorff cyhoeddus) yn dod o Lywodraeth Cymru. Roedd ceisiadau am gefnogaeth a chyngor i'm swyddfa i fyny 78% yn 2019-20 o 2018-19. Gostyngodd hyn ~19% rhwng 2019-20 a 2020-21 a oedd yn debygol oherwydd y pandemig. Ers i'r flwyddyn ariannol hon ddechrau ym mis Ebrill 2021, rwyf wedi cael 128 o geisiadau, sy'n debygol o dyfu wrth i ni weithio'n agosach gyda chyrff cyhoeddus yn unol ag argymhellion y Pwyllgor.

Fodd bynnag, rwy'n cydnabod oherwydd adnoddau cyfyngedig ac, yn fwy diweddar, y pwysau a roddwyd ar gyrff cyhoeddus yn ystod y pandemig, mae adeiladu ar y gefnogaeth hon wedi bod yn heriol. Mewn blynyddoedd blaenorol, rwyf wedi defnyddio cyfuniad o'r tanwariant o fy nghyllideb blwyddyn un (yn deillio yn bennaf o'r oedi cyn recriwtio staff i'm swyddfa) ac incwm arall i ariannu lefel o wasanaethau y tu hwnt i'm grant blynyddol mewn lefel cyllid cymorth a hyn ac ni fydd ar gael o Fawrth 2022.

Credaf hefyd fod Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan hanfodol yn llwyddiant y rhaglen newid diwylliannol ar raddfa fawr a yrrir gan y ddeddfwriaeth, nid yn unig am eu bod yn gorff cyhoeddus o bwys a gwmpesir gan y Ddeddf eu hunain, ond oherwydd bod p'un a ydynt yn dangos egwyddorion y Ddeddf ai peidio yn cael effaith sylweddol ar yr hyn y mae cyrff cyhoeddus eraill yn ei wneud. Mae hyn wedi golygu bod fy ffocws ym mlynyddoedd cynnar fy rôl wedi bod ar sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru y polisi, y prosesau a'r ysgogiadau cywir ar waith.

Yn eu tystiolaeth i'r Pwyllgor, roedd cyrff cyhoeddus yn cydnabod pwysigrwydd y rhain:

- Amlygodd 50% o gyrff cyhoeddus fod nifer y partneriaethau strategol, a chael sawl aelodaeth, yn rhwystr i weithredu'r Ddeddf.
- Amlygodd 56% o gyrff cyhoeddus fod cylchoedd cyllido tymor byr a chyfyngiadau cyllid ac ati yn rhwystro eu gallu i gyflawni camau ataliol tymor hir.
- Awgrymodd 67% o gyrff cyhoeddus fod angen mwy o alinio traws-bolisi a strategaeth gan Lywodraeth Cymru.
- Mae 30% o'r holl ymatebion yn awgrymu bod angen arweinyddiaeth gryfach gan Lywodraeth Cymru.
- Awgrymodd 42% o gyrff cyhoeddus fod angen i Lywodraeth Cymru fewnosod ac ymgorffori egwyddorion y Ddeddf yn well fel model rôl ar gyfer cyrff cyhoeddus eraill.

Roedd y pryderon hyn yn adleisio'r canfyddiadau yn fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Pwynt Cyswllt Ymroddedig**

Clywodd y Pwyllgor gan sawl corff cyhoeddus eu bod yn dymuno cael mwy o gyswllt â fy swyddfa. Mae cael pwynt cyswllt o fewn fy nhîm yn rhywbeth y mae cyrff cyhoeddus wedi dweud wrthyf yn gyson y byddai'n helpu gyda gweithredu'r ddeddfwriaeth, ond mae hyn wedi bod yn heriol oherwydd fy lefel adnoddau a'r angen i ganolbwyntio ar faterion systemig.

Adleisiodd cyrff cyhoeddus hyn mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor hwn:

- Hoffai 36% o ymatebwyr Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gael cefnogaeth ychwanegol, yn enwedig o ran sut i gyflawni'r Ddeddf.
- Hoffai 38% o ymatebwyr Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gael hyfforddiant a / neu adnoddau ychwanegol ar gyfer eu sefydliad ac at ddibenion cyhoeddus.
- Cododd 22% o gyrff cyhoeddus y byddai perthnasoedd gwaith agosach â'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol megis cael cyswllt swyddfa uniongyrchol yn fuddiol.

"... yr hyn rydw i eisiau mwy ohono wrth swyddfa'r Comisiynydd: rydw i eisiau mwy o amser. Rwy'n credu eu bod nhw'n rhagorol. Nid oes digon ohonynt, ac maent yn ceisio gwneud llawer iawn gydag adnodd bach iawn ... Perthynas ragorol, hoffwn gael mwy o amser gan dîm y Comisiynydd. Adnodd rhagorol ond meidrol. " (Ymddiriedolaeth GIG Felindre)

"… Nid wyf yn gwybod beth yw adnoddau'r Comisiynydd ond yn sicr byddai cael cyswllt uniongyrchol (byddai o gymorth), pe bai ganddi'r adnoddau." (Cyngor Sir Powys)

"Cael cynrychiolydd o swyddfa'r Comisiynydd ym mhob rhanbarth i roi mynediad i ni. Yn fwy cyfleus iddynt fod yn bresennol ym mhob rhanbarth (nid sir oherwydd nad oes ganddynt ddigon o staff). " (Cyngor Ynys Môn)

Wrth wrando ar yr adborth hwn, rwy'n falch o ddweud fy mod wedi dyrannu aelod o fy nhîm i fod yn bwynt cyswllt pwrpasol ar gyfer pob corff cyhoeddus a gwmpesir gan y Ddeddf gyda'r bwriad o ddyfnhau ein perthynas a darparu cefnogaeth sy'n gyson â'm dyraniad cyllid cyfredol.

Rwyf wedi recriwtio pedwar aelod o staff dros dro i dreialu'r dull hwn, a chynnwys cyrff cyhoeddus mewn sgyrsiau rheolaidd dros yr ychydig fisoedd nesaf er mwyn mesur ein hadnodd a'n gallu i ymateb i geisiadau am help. Y bwriad yw adeiladu perthnasoedd mwy cyson ac adeiladol gyda'n gilydd, gan roi cyfleoedd ychwanegol i ni wella cyfathrebu, darparu cyngor a chefnogaeth, arddangos arfer da a helpu i gyfeirio at gydweithwyr eraill yn fewnol ac ar draws Cymru.

Eisoes, mae cyrff cyhoeddus wedi dweud wrthyf eu bod yn croesawu'r dull hwn.

"[Rydym] yn croesawu penderfyniad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gefnogi gweithrediad y Bwrdd Iechyd o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) trwy ddyrannu pwynt cyswllt pwrpasol o fewn tîm Cenedlaethau'r Dyfodol." (Llythyr oddi wrth Bwrdd Iechyd, Gorffennaf 2021)

"Mae hon yn fenter i'w chroesawu i gael y pwynt cyswllt hwnnw gyda'r Comisiynydd a swyddfa'r Comisiynydd." (Cyfarfod â Chyngor, Gorffennaf 2021)

"Rwy'n bendant yn cefnogi'r fenter hon, cyn hyn ni chawsom ormod o ryngweithio gyda'r Swyddfa ac yn awr mae'n teimlo fel ein bod yn cael sgwrs ddwyffordd" (Cyfarfod ag Aelod Cabinet Cenedlaethau a Llesiant y Dyfodol, Awst 2021)

Ariannwyd y gwaith hwn gan yr olaf o fy nhanwariant a chronfeydd wrth gefn hanesyddol na fydd ar gael o fis Mawrth 2022. **Yn anffodus, mae aelodau ychwanegol fy nhîm yr wyf wedi'u recriwtio i weithio yn y peilot hwn ar gontractau tymor byr gan y bydd angen cyllid ychwanegol arnaf ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon yn uwch na'r grant blynyddol a gefais yn draddodiadol.** Rwy'n cyflwyno achos i Lywodraeth Cymru at y diben hwn gan ein bod yn symud i gyllideb yn seiliedig ar anghenion wrth symud ymlaen yn fy amcangyfrifon statudol ar gyfer 2022/23, gan yr hoffwn sefydlu'r gwaith hwn yn barhaol.

Bydd y peilot 6 mis hwn yn cael ei adolygu yn ddiweddarach eleni, a byddaf yn rhannu diweddariad gyda'r Pwyllgor yn y Flwyddyn Newydd.

## Cymorth Ychwanegol

Rwyf hefyd yn cynllunio cefnogaeth ychwanegol i gyrff cyhoeddus trwy ail rifyn **Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol lle bydd uwch arweinwyr ar draws y sector cyhoeddus yn arbennig yn gallu cael gafael ar fentora o chwith gan arweinydd yn y dyfodol a chyfleoedd i brofi datblygiad polisi gyda'r Academi.** Ariennir y rhaglen hon yn llawn gan sefydliadau partner ar draws y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector ac yn dilyn blwyddyn beilot yn 2019-20 canfu gwerthusiad annibynnol fod yr Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cyflawni ei amcanion i hyfforddi pobl ifanc (gan gynnwys arweinwyr ifanc o gyrff cyhoeddus) mewn sgiliau arwain a meithrin eu dealltwriaeth o'r Ddeddf Llesiant ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol a sut i gyflawni ei nodau. Bydd ail raglen Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhedeg rhwng Tachwedd 2021 a Mehefin 2022 ac rydym yn recriwtio 20-30 o arweinwyr ifanc o bob rhan o'r sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, rhwng 18-30 oed. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am yr Academi yma.

Rwyf hefyd wedi cyhoeddi **fersiynau byr o Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol**, sydd wedi'u teilwra mewn sectorau ac adrannau penodol mewn cyrff cyhoeddus. Nod y cynhyrchion hyn yw darparu fersiynau amgen o Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 i gyrff cyhoeddus sy'n haws eu treulio. Mae fy nhîm wedi bod yn cynnal sesiwn gyda gwahanol gyrff sectoraidd er enghraifft Grŵp Swyddogion Cynllunio Gogledd Cymru (NWPOG) a Chynllunwyr Ifanc Cymru i'w uwchsgilio ar ddefnyddio'r adnoddau hyn. Gallwch ddod o hyd i'r adnoddau hyn yma.

"Rydyn ni wir yn hoffi fformat syml, deniadol, hawdd ei ddefnyddio'r ddogfen. Credwn fod yr Ystadegau a Thueddiadau yn nodi'n glir iawn beth yw'r problemau ac yn rhoi pwys cyfartal i'r argyfyngau ar y cyd o gynhesu byd-eang a cholli bioamrywiaeth. Mae model donut Oxfam yn dangos sut rydyn ni yng Nghymru yn byw y tu hwnt i'n cyfran deg o adnoddau'r byd. Rydym yn croesawu'r llyw y mae'r ddogfen yn ei ddarparu fel gweledigaeth glir iawn o'r hyn y dylai Cymru fod yn anelu ato." (Adborth Corff Cyhoeddus Cenedlaethol)

"Mae hyn yn dda - rwy'n hoffi hyn. Ffordd wych o ddangos ac egluro rôl a phwysigrwydd tai o ran y cyfleoedd a'r buddion ehangach ac ati. Ffordd ddefnyddiol iawn o gyflwyno'r cysylltiad rhwng Tai a Chenedlaethau'r Dyfodol - yn enwedig i leygwyr. " (Adborth Awdurdod Lleol)

Er mwyn cefnogi cyrff cyhoeddus i gymhwyso'r Ddeddf, a chydnabod sut olwg sydd ar bethau da, rwyf wedi cyhoeddi astudiaethau achos sy'n dangos newid trawsnewidiol. Byddaf yn gweithio gyda chyrff cyhoeddus i nodi arfer da a chynyddu dysgu ar draws eu sefydliadau. Mae hyn mewn ymateb i'r 31% o ymatebion i ymholiad y Pwyllgor a awgrymodd y bydd rhannu arfer da yn ysbrydoli ac yn hyrwyddo gweithgaredd pellach. Gallwch ddod o hyd i'r astudiaethau achos hyn yma.

***Fy ymateb i:* Argymhelliad 4**: Dylai Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol flaenoriaethu cefnogi cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gyflawni'r ddeddfwriaeth hon.

Yn ychwanegol at y sylwadau ar Argymhelliad 3 uchod, hoffwn rannu'r myfyrdodau canlynol.

**Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau)**
Mae'n amser pwysig i BGCau. Rhwng hydref 2021 a gwanwyn 2023, byddant yn cyhoeddi eu hail asesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant ar gyfer eu priod ardaloedd, fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf.

Mewn ymdrech i fod mor gynorthwyol â phosibl wrth gefnogi BGCau i baratoi'r rhain, gweithiodd fy swyddfa'n agos gyda chydweithwyr yn adran Partneriaeth Llywodraeth Cymru i rannu set glir o ddisgwyliadau ar y cyd ym mis Mawrth 2021. Llofnodwyd hyn gan Julie James AS a minnau, ac mae wedi'i gynnwys yn yr atodiad ar gyfer eich cyfeirnod.

Mae'r canllaw hwn nid yn unig yn nodi'r hyn yr oeddem yn disgwyl ei weld yn ystod yr ail rownd o gynllunio llesiant gan BGCau, ond hefyd yr hyn y bydd fy swyddfa a Llywodraeth Cymru yn ei wneud (a'r hyn y byddwn yn ei archwilio), i gefnogi BGCau orau ag y gallwn.

Er enghraifft, gwnaethom ddweud y byddwn yn parhau i redeg y cyfarfodydd rhwydwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus cenedlaethol a gweminarau sy'n canolbwyntio ar bynciau trwy 2021 gyda sefydliadau a rhwydweithiau eraill, gan adeiladu ar y digwyddiadau 'ymwneud' a 'dyfodol/tymor hir' a gynhaliwyd gennym ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2020. A gwnaethom ddweud y byddem yn archwilio'r potensial ar gyfer cymunedau bach ar-lein o ymarfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (rhwydweithiau cymheiriaid) ar themâu penodol. Mae fy nhîm hefyd yn gweithio ar y cyd â Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru sydd wedi sicrhau cyllid y Loteri Fawr i gefnogi cyfranogiad pobl ledled Cymru mewn asesiadau a chynllunio llesiant.

Mae fy swyddfa yn parhau i weithio gyda chydweithwyr Llywodraeth Cymru i redeg a chymryd rhan weithredol yng nghyfarfodydd rhwydwaith Cydlynydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a gynhelir 3-4 gwaith y flwyddyn. Oherwydd y pandemig, newidiodd y rhain o gyfarfod yn bersonol mewn lleoliadau ledled Cymru, i ar-lein. Ac mae wedi bod yn gadarnhaol gweld egni a chyfranogiad gweithredol y Cydlynwyr yn y sesiynau ar-lein mwy diweddar hyn. Rydym hefyd yn defnyddio'r cyfarfodydd rhwydwaith, bwletinau chwarterol, gweminarau ar-lein a dulliau eraill i rannu arfer da / gorau gyda BGCau - mae hyn yn arbennig o bwerus wrth glywed gan BGCau sy'n teimlo eu bod yn cyflwyno agweddau ar y Deddfau yn dda yn eu hardaloedd.

Mae fy swyddfa yn parhau i weithio'n agos gydag Is-adran Dyfodol Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, sy'n arwain ar gyhoeddi ail Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol. Mae hyn er mwyn sicrhau aliniad ac integreiddiad â'r BGCau wrth iddo ddatblygu. Ar hyn o bryd, mae hyn yn cynnwys fy swyddfa yn gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i baratoi camau ac arweiniad cliriach i BGCau ar sut y gallant ymgorffori dyfodol a thymor hir yn eu hasesiadau a'u cynlluniau llesiant. A, cymryd rhan mewn cyfres o weithdai ar-lein yn yr hydref gyda chydweithwyr yn y Llywodraeth i helpu BGCau i ddeall a chymhwyso'r Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol i'w hardaloedd, gan eu helpu i ateb y cwestiwn 'felly beth?'.

Mae'r gwaith ymroddedig hwn yn ychwanegol at fy nyletswyddau cyffredinol o ddarparu cyngor, cymorth ac annog cyrff cyhoeddus a BGCau i roi mwy o ystyriaeth i effaith hirdymor y pethau maen nhw'n eu gwneud. Ar gyfer BGCau yn benodol, mae fy nhîm yn darparu cyngor ad-hoc yn rheolaidd, yn treulio eu Hadroddiadau Blynyddol ac yn darparu astudiaethau achos ac yn rhannu arfer da ac weithiau byddaf yn mynychu cyfarfodydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i ddarparu cyngor ac anogaeth. Fel yr eglurwyd uchod, ar hyn o bryd mae'r pwyntiau cyswllt yn fy nhîm yn cynnwys cynrychiolwyr cyrff cyhoeddus a BGCau ledled Cymru i archwilio sut y gellir defnyddio fy adnoddau a'm gallu cyfyngedig i'w helpu i roi'r ddeddfwriaeth hon a newid diwylliannol ar waith.

***Fy ymateb i:*** **Argymhelliad 11:** Rhaid i gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sicrhau bod y pum ffordd o weithio wedi'u hymgorffori yn eu cynlluniau ar gyfer adferiad o bandemig Covid-19. Rydym yn argymell na chollir unrhyw enillion y maent wedi'u gwneud yn eu hymateb uniongyrchol i'r pandemig, a'u bod yn symud eu ffocws o'r dydd i ddydd i'r tymor hir ac atal.

Wrth i Lywodraeth Cymru, y Senedd a chyrff cyhoeddus ddatblygu eu cynlluniau ar gyfer adferiad o bandemig COVID ac ymdrin â heriau parhaus, ni fu ffocws hirdymor ac integredig Deddf Llesiant Cenhedlaeth y Dyfodol erioed yn fwy hanfodol. Mae gennym gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i greu gwasanaethau cyhoeddus sy'n mynd i'r afael â'r argyfyngau economaidd, cydraddoldeb, iechyd, hinsawdd a natur ar yr un pryd, ac sy'n darparu'r 'Cymru ddelfrydol' i'n cymunedau nawr ac yn y dyfodol.

Mae COVID-19 wedi rhoi pwysau enfawr ar y sector cyhoeddus ac wedi arwain at golli bywyd yn enbyd. Mae'r Pwyllgor wedi clywed llawer o enghreifftiau o sut mae cyrff cyhoeddus wedi defnyddio'r cyfnod hwn fel cyfle i weld pethau'n wahanol. Fodd bynnag, nid wyf wedi cael sicrwydd eto bod meddwl dyfodol a chynllunio rhagwelediad wedi cael ei gymhwyso'n llawn i helpu i lunio ymateb tymor hir Llywodraeth Cymru i'r pandemig, neu o ran sut y mae'n ceisio atal argyfyngau yn y dyfodol rhag digwydd.

At hynny, mae COVID-19 wedi tynnu sylw at neu waethygu llawer o anghydraddoldebau a oedd yno eisoes ac na ellir eu hanwybyddu mwyach. Rwy'n cynghori cyrff cyhoeddus i gymryd pob cam rhesymol i nodi a mynd i'r afael â'r heriau hyn. Bydd fy Adroddiad Anghydraddoldeb yn Nyfodol Cymru sydd ar ddod hefyd yn rhoi gwybodaeth bellach i gyrff cyhoeddus eu hystyried.

Er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei chynlluniau adfer, cyhoeddais sawl darn o gyngor, gan gynnwys cynllun 5 pwynt, llythyr manwl at Jeremy Miles AS a Rebecca Evans AS (fel atodiad) a chyhoeddi Rhaglen Lywodraethu Addas ar gyfer y Dyfodol. Rwyf wedi dilyn hyn gyda chyngor manylach ar agwedd benodol, er enghraifft buddsoddi mewn datgarboneiddio cartrefi, Strategaeth Drafnidiaeth y genedl newydd ac ar ddatblygu polisi sgiliau.

Croesawais y sylwadau a wnaed gan gyrff cyhoeddus yn ystod yr ymchwiliad. Mae dros draean o ymatebion ysgrifenedig Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn tynnu sylw y dylid defnyddio COVID (a Brexit) fel cyfleoedd i weithredu'r Ddeddf tra bod pobl yn barod i dderbyn newid. Mae gwersi clir yma ar sut y gellir 'pobi' y ffyrdd hyn o weithio ar gyfer gwaith yn y dyfodol a'u cymhwyso i feddwl yn y tymor hir, nid ymateb i argyfwng yn unig.

"Mae'r Ddeddf sy'n dod i'r amlwg o COVID yn bwysicach nag erioed o'r blaen. Mae'r nodau yn egwyddorion craidd i bob gwlad ledled y byd. Rydyn ni wedi dysgu llawer o wersi a dyna'r wlad rydyn ni am ddod allan o'r pandemig. Y ffordd i'w wneud yw gweithio gyda'n gilydd. Mae'r 5 Ffordd o Weithio yn bwysicach nag erioed ar ôl COVID." (Cyngor Ynys Môn)

"Mae profiad COVID a'r Ddeddf wedi plannu cydwybod ynom o bwrpas uwch ac yn gwneud ein gwasanaethau'n fwy hygyrch." (Llyfrgell Genedlaethol Cymru)

Yn hytrach na gwario £3m ar ganolfan newydd, dewisodd Llyfrgell Genedlaethol Cymru fuddsoddi mewn digidol i wneud eu casgliadau yn fwy hygyrch.

Cydnabu Cyngor Sir y Fflint fod cyfyngiadau cyllidebol a COVID wedi eu helpu i edrych ar bethau'n wahanol. Maen nhw wedi adnewyddu'r hen adeiladau ar gyfer rhai canolfannau dydd ac wedi comisiynu sefydliad trydydd sector sy'n rhedeg y gwasanaeth yn llawer gwell - mae'r cynnig i ddefnyddwyr gwasanaeth wedi gwella llawer.

Rwyf wedi croesawu arloesedd a chydweithrediad cyrff cyhoeddus wrth fynd i'r afael ag ymateb COVID. Mae gweithgareddau a phenderfyniadau a oedd unwaith yn cael eu hystyried yn heriol neu ddim yn hanfodol wedi cael eu gweithredu ac rwy'n falch bod cyrff cyhoeddus wedi ymrwymo i barhau â llawer o'r dulliau da hyn y tu hwnt i'r adferiad.

Yn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor, rhannais bryderon bod Llywodraeth Cymru yn methu â chymhwyso pob un o'r pum ffordd o weithio'n gyson yn ystod y pandemig. Roedd y pryderon hyn yn cynnwys:

- Diffyg cydgysylltiad ac **integreiddio** ar adferiad COVID-19 Cymru. Roeddwn yn pryderu bod sawl grŵp polisi a Grwpiau Cynghori Gweinidogol o bosibl yn gweithio ar eu pennau eu hunain.
- Roedd diffyg aliniad rhwng y gweithgaredd ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn perthynas â'r ymateb i COVID-19 a'r grwpiau cynghori gweinidogol (ac eraill) yn canolbwyntio ar adferiad. Nid yw'n glir sut mae'r wybodaeth a'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu yn llywio gwaith (a phenderfyniadau buddsoddi) y Llywodraeth i fynd i'r afael â chamau **ataliol**.
- Diffyg **ymgyfraniad** (o ran amrywiaeth a chydraddoldeb) mewn llawer o'r grwpiau sy'n llunio'r adferiad. Mae angen adeiladu ar y dulliau cynnwys a ddefnyddir fel rhan o'r ymateb i argyfwng, gan ehangu cyfranogiad grwpiau sy'n llywio'r adferiad.
- Diffyg **integreiddio** ar draws meysydd polisi. Er enghraifft, mae'r Amgueddfa Genedlaethol wedi bod yn agored yn eu neges eu bod yn 'adnodd nas defnyddiwyd'. Maent am gael eu cysylltu'n well â'r grwpiau a'r rhwydweithiau eraill sy'n gweithio ar adferiad COVID-19, yn enwedig grwpiau sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd, sgiliau ac iechyd a llesiant.
- Yn aneglur sut mae meddwl am y dyfodol a rhagwelediad **tymor hir** yn cael ei gymhwyso.

Rhaid rhannu'r gwersi hyn ar draws y Llywodraeth ac yn allanol.

Dangosodd Llywodraeth Cymru ddull blaengar o basio'r gyfraith hon - ond mae wedi tanamcangyfrif maint y ffocws, y gefnogaeth a'r diwygiad sydd ei angen i'w gyflawni ym mhob haen o lywodraethu a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Bellach mae angen i'r Llywodraeth sicrhau bod y dull uchelgeisiol wrth basio deddfwriaeth ar lawr y Senedd yn cyd-fynd â gweithredu uchelgeisiol ar ei weithredu ar lawr gwlad.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda'r Pwyllgor hwn ac eraill ledled y Senedd yn ystod gweddill fy nhymor.

Cofion cynnes,



Sophie Howe
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**
Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

**Future Generations Commissioner for Wales**
Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales

**Y Pwyllgor Busnes**
—
**Business Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

Mark Isherwood AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

22 Medi 2021

**Ymateb i argymhellion Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Bumed Senedd**

Annwyl Mark

Gwnaeth Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Bumed Senedd ddau argymhelliad i Bwyllgor Busnes y Chweched Senedd fel rhan o'i waith craffu ar weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015: *Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yma.*

Rydym yn falch o allu derbyn y ddau argymhelliad. Mae ein hymateb llawn i'r argymhellion hynny wedi'i amgáu.

Yn gywir



**Elin Jones AS**
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

| Argymhellion (o *Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn*) |
| --- |
| **Argymhelliad 13.** Dylai Pwyllgor Busnes y Chweched Senedd sicrhau bod strwythur Pwyllgor y Senedd yn hwyluso gwaith craffu effeithiol ar ddeddfwriaeth fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a materion eraill sy'n pontio meysydd polisi a phortffolios Gweinidogol.<br>**Argymhelliad 14.** Dylai Pwyllgor Busnes y Chweched Senedd roi ystyriaeth benodol i sut y dylid ymgymryd â gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a chyfeirio'r corff hwnnw o waith at Bwyllgor neu fforwm priodol yn unol â hynny. |
| Ymateb gan y Pwyllgor Busnes |
| **Rydym yn derbyn argymhellion 13 a 14.**<br>Ceisiwyd mynd i'r afael â'r argymhellion hyn yn y cynigion a wnaethom i'r Senedd ynghylch sefydlu pwyllgorau.<br>Mae cylch gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn cynnwys *"gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015"* a'r gallu i graffu ar unrhyw faes polisi o safbwynt y materion trawsbynciol o fewn ei gylch gwaith, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i): gydraddoldeb a hawliau dynol, a gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.<br>Er mai mater i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yw penderfynu ar y ffordd orau o gyflawni ei gylch gwaith, credwn y bydd pwysleisio'r gallu i weithio ar draws ffiniau polisi yn sicrhau y gellir mynd ar drywydd pob agwedd ar y Ddeddf heb gyfyngiadau. Ein gobaith hefyd yw bod y dull hwn yn gweithredu fel catalydd ar gyfer mwy o gydweithio rhwng pwyllgorau wrth fynd i'r afael â heriau craffu trawsbynciol.<br>Rydym wedi sicrhau bod capasiti o fewn amserlen y pwyllgorau er mwyn helpu i hwyluso cydweithio rhwng pwyllgorau. Mater i bwyllgorau nawr yw penderfynu a ydynt am fanteisio ar y cyfle hwn a sut y maent am wneud hynny.<br>Gobeithio y bydd gwneud un pwyllgor yn gyfrifol am graffu ar weithredu'r Ddeddf yn sicrhau bod gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol penodol yn cael ei roi iddo, ond nid oes angen gwneud hyn ar wahân i waith pwyllgorau eraill.<br>Roedd hyblygrwydd yn egwyddor sylfaenol wrth ddylunio'r system bwyllgorau. Eu harwain yn hytrach na'u rhwymo gan eu cylchoedd gwaith a gaiff y pwyllgorau, a gallant fynd ar drywydd materion trawsbynciol lle |

bynnag y gallent arwain o ran polisi. Er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn effeithiol, mae cyfathrebu rhwng pwyllgorau yn hanfodol. Rydym yn gosod y disgwyliad hwn yn ein hadroddiad *Pwyllgorau'r Chweched Senedd: Teitlau a cylchoedd gorchwyl.*

Rydym hefyd wedi cytuno i gynnig bod y Senedd yn sefydlu Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog gyda chylch gwaith trawsbynciol i "*graffu ar y Prif Weinidog ar unrhyw fater sy'n berthnasol i'r gwaith o arfer swyddogaethau Llywodraeth Cymru."* Fel yn y Bumed Senedd, bydd Fforwm y Cadeiryddion yn darparu lle gwerthfawr i Gadeiryddion Pwyllgorau'r Senedd drafod a mynd i'r afael â heriau craffu trawsbynciol.

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref JH/3178/21

Mark Isherwood AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

1 Hydref 2021

Annwyl Mark,

**Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (5ed Senedd)** ***Cyflawni ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol: Y stori hyd yn hyn.***

Diolch i aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus blaenorol am eu gwaith gwerthfawr yn ystyried y rhwystrau wrth roi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar waith

Rydym yn cydnabod bod natur yr ymchwiliad a arweiniwyd gan y Pwyllgor yn golygu ei fod wedi gwneud argymhellion ar faterion polisi sy'n ymwneud â gweithredu Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym wedi ystyried yr adroddiad a'i gasgliadau a'i argymhellion yn ofalus ac rwy'n atodi ymateb i'r argymhellion sy'n gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddefnyddio fframwaith Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i roi Cymru ar drywydd mwy cynaliadwy a helpu i fynd i'r afael â'r heriau cynaliadwyedd hirdymor y mae Cymru yn eu hwynebu. Dros y 18 mis diwethaf, mae aelodau'r Senedd, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi craffu'n helaeth ar y ffordd y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei rhoi ar waith.

Mae cwmpas eang canfyddiadau, syniadau ac argymhellion yr adroddiadau hyn yn adlewyrchu'r ffordd y mae deddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn treiddio drwy'r Llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus Cymru a'i dylanwad ar bolisïau, prosesau a phobl. Er y gall hyn fod yn gymhleth a chael ei hystyried yn wendid yn y ddeddfwriaeth,

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

mae'n dangos o hyd nad gweithgarwch ategol yw agenda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a'i bod yn cael ei defnyddio i herio, cwestiynu a gwella ffyrdd presennol o weithio fel bod modd ystyried dewisiadau mwy cynaliadwy. Bydd yr adroddiadau hyn yn cyfeirbwynt hanfodol wrth inni weithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a chyrff cyhoeddus i ddymchwel y rhwystrau a wynebir wrth roi'r Ddeddf ar waith, ac adeiladu ar y brwdfrydedd ymhlith swyddogion cyhoeddus a rhanddeiliaid y mae adroddiad yr Aelodau yn tynnu sylw ato.

Yn ein hymateb, rydym wedi ceisio derbyn yr argymhellion, rydym yn cytuno y byddant yn helpu i fynd i'r afael â'r rhwystrau a wynebir wrth roi'r Ddeddf ar waith. Fodd bynnag, mae'r awgrymiadau penodol ar gyfer cwblhau'r gwaith yn unol ag amserlen benodedig neu mewn ffordd benodedig wedi golygu ein bod wedi derbyn rhai ohonynt mewn egwyddor.

Yr wythnos nesaf byddaf yn ysgrifennu at Archwilydd Cyffredinol Cymru heddiw hefyd gan ddisgrifio ein hymateb i'w adroddiad, y gwnaethom gytuno ag Archwilio Cymru y byddem yn ei ystyried ochr yn ochr â chanfyddiadau ac adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Byddaf hefyd yn ysgrifennu at Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gwblhau ein hymateb i Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol (2020).

Yr eiddoch,

**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

**Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (5ed Senedd) Cyflawni ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol: Y stori hyd yn hyn.**

---

## ARGYMHELLIAD 1

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o sut y gall ddarparu sicrwydd ariannol tymor hwy i'r cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf hon. Dylai'r adolygiad hwn gael ei gwblhau mewn pryd i lywio penderfyniadau cyllido mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2023-24.

### Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae'n uchelgais gan Lywodraeth Cymru o hyd i ddarparu cyllidebau tymor hwy i'n partneriaid a'n rhanddeiliaid ac rydym yn dal i fod yn barod i ystyried opsiynau i roi sicrwydd lle y bo hyn yn bosibl, fel y nodir yn ein Cynllun Gwella'r Gyllideb a gyhoeddir ar y cyd â'n Cyllideb Ddrafft. Croesewir y ffaith bod y Pwyllgor yn cydnabod nad yw Llywodraeth y DU yn darparu'r ffigurau cyllido ymlaen llaw, ac mae hyn wedi golygu na fu modd i Lywodraeth Cymru gynnig setliadau cyllido amlflwydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i gyhoeddi setliadau amlflwydd gyda'r rhagolygon ar gyfer Adolygiad Gwariant y DU sydd ar y gorwel a'r Gyllideb ar 27 Hydref yn awgrymu y gallem ddisgwyl setliad 3 blynedd.

O dan y trefniadau ariannu presennol ar gyfer cyrff cyhoeddus, rydym eisoes yn rhoi amcan o'r cyllid ar gyfer y blynyddoedd i ddod lle y bo hyn yn bosibl. Rydym yn symud tuag at raglen o Gylchoedd Gwaith Tymor y Llywodraeth ar gyfer Cyrff Hyd Braich yng Nghymru, a bydd hyn yn fwy cynhyrchiol o lawer os cawn setliadau amlflwydd gan Lywodraeth y DU, a fyddai'n ein galluogi i roi cyllidebau dangosol tymor hwy i gyrff.

### Goblygiadau ariannol

Bydd y gwaith o ystyried opsiynau o bosibl yn cael ei wneud o fewn adnoddau presennol.

---

## ARGYMHELLIAD 2

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o sut y caiff gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ei gyllido. Dylai'r adolygiad ddechrau heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl etholiad nesaf y Senedd, a dylid gweithredu casgliadau'r adolygiad mewn pryd iddynt lywio dyraniadau cyllid ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24. Dylid cynnal yr adolygiad gan lynu at yr egwyddorion a ganlyn:

- Dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus allu cael mynediad at gronfeydd cyfun, wedi'u tynnu o adnoddau eu haelodau statudol, y gallent naill ai eu cadw fel endidau corfforaethol ffurfiol neu drwy drefniadau anffurfiol.
- Dylid penderfynu ar gyllidebau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ôl canllawiau clir a chyson wedi'u pennu gan Lywodraeth Cymru.
- Dylai cyllidebau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gael eu llywio gan y rôl y mae Llywodraeth Cymru wedi ei gosod ar eu cyfer.

- Dylai’r cyfraniadau y mae’n ofynnol i bob sefydliad eu gwneud i gyllido Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gydnabod yr ymrwymiadau  ehangach sydd ganddynt i bartneriaethau eraill (gan gynnwys i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill).

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi bod o'r farn mai mater i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yw penderfynu sut maent yn ariannu eu gwaith, gan gynnwys cyfuno cyllidebau. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw pob partner wedi cael cystal llwyddiant yn hyn o beth ac mae'n bosibl bod lle i gefnogi dull cyffredin o gyfuno adnoddau. Efallai y bydd rhai partneriaid yn gwerthfawrogi canllawiau ychwanegol ar yr hyblygrwydd a geir o ran y cyllid sydd ar gael o ffynonellau eraill.

Byddwn yn gweithio gyda’r Byrddau i gael dealltwriaeth well o'r adnoddau maent wedi'u cyfuno – neu wedi ceisio'u cyfuno – er mwyn nodi a rhannu arferion da. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn ystyried y pecyn o gyllid a chymorth rydym yn ei gynnig yn uniongyrchol i'r Byrddau bob blwyddyn a byddwn yn ystyried ffyrdd o godi ymwybyddiaeth am yr amrywiaeth o ffynonellau cyllid sydd ar gael iddynt.

Y flaenoriaeth uniongyrchol yw cefnogi'r gwaith o gyflawni'r asesiadau lleol o lesiant, y mae angen eu cynnal erbyn y gwanwyn. Er nad yw'r gwaith hwn yn debygol o ddechrau ar yr adeg a argymhellir gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, byddwn yn ceisio darparu canllawiau i’r Byrddau erbyn iddynt orffen paratoi eu cynlluniau llesiant lleol a rhoi trefniadau ar waith i gyllido'r gwaith o'u cyflawni.

**Goblygiadau ariannol**

Byddai unrhyw adolygiad o'r dull cyllido yn cael ei gynnal o fewn yr adnoddau presennol.

---

**ARGYMHELLIAD 5**

Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau gyda chynlluniau i bennu a chyhoeddi cerrig milltir fel sy’n ofynnol gan adran 10 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl etholiadau’r Senedd yn 2021.

**ARGYMHELLIAD 6**

Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau gyda chynlluniau i adolygu a chyhoeddi dangosyddion llesiant cenedlaethol diwygiedig heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl etholiadau’r Senedd yn 2021. Dylai’r adolygiad gydnabod yr heriau a’r cyfleoedd a gyflwynir gan y pandemig Covid-19 ac ystyried barn cyrff cyhoeddus, y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol y sector preifat a’r sector gwirfoddol.

**Ymateb (5 a 6): Derbyn mewn egwyddor**

Gwnaethom gyhoeddi ymgynghoriad ar y cerrig milltir a'r dangosyddion cenedlaethol ar 1 Medi 2021 ac rydym yn ymrwymedig i gyhoeddi'r gyfres gyntaf o gerrig milltir a'r dangosyddion cenedlaethol wedi'u diweddaru erbyn mis Rhagfyr 2021.

Rydym yn cytuno ei bod yn bwysig symud yn gyflym i ddatblygu'r Cerrig Milltir Cenedlaethol ac adolygu a gwneud mân newidiadau i'r Dangosyddion Cenedlaethol, ond

mae'r un mor bwysig ein bod yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng symud yn gyflym a gwneud gwaith ymgysylltu o safon. Credwn fod yr amserlen a amlinellir yn y map trywydd cyflawni yn dal i adlewyrchu'r cydbwysedd cywir ar y cyfan.

Mae'r amserlen bresennol eisoes yn heriol a byddai unrhyw ymgais i gyhoeddi fis yn gynt er mwyn cydymffurfio â'r argymhelliad yn cwtogi'n sylweddol ar yr amser a neilltuwyd ar hyn o bryd ar gyfer cydweithio â rhanddeiliaid neu, fel arall, yn effeithio'n sylweddol ar ein cynlluniau i gynnal ymgynghoriad ysgrifenedig yn yr hydref. O ystyried bod gan Weinidogion Cymru ddyletswydd statudol i ymgynghori â chyrff cyhoeddus ar y Dangosyddion a'r Cerrig Milltir Cenedlaethol cyn iddynt gael eu pennu, rydym o'r farn y byddai ceisio newid amserlen y map trywydd ar y cam hwn yn fwy o rwystr nag o fudd i'r gwaith o gyflawni'r Cerrig Milltir Cenedlaethol a'r Dangosyddion Cenedlaethol diwygiedig i Gymru.

**Goblygiadau ariannol**

Dim, caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli.

---

**ARGYMHELLIAD 7**

Rhaid i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad o’r cyrff cyhoeddus sy’n ddarostyngedig i’r Ddeddf. Dylid gweithredu canfyddiadau’r adolygiad hwnnw mewn digon o amser i unrhyw gyrff cyhoeddus sydd newydd eu hychwanegu dderbyn eu dyraniadau cyllid a’u llythyrau cylch gwaith cysylltiedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23. Dylai’r adolygiad:

▪ystyried yr effaith y byddai cynnwys/hepgor unrhyw gorff cyhoeddus penodol yn ei chael ar weithredu’r Ddeddf ar lefel genedlaethol;

▪cydnabod y bydd cynnwys unrhyw gyrff cyhoeddus ychwanegol yn arwain at ofynion adrodd, monitro ac archwilio ychwanegol ac y bydd hyn yn anochel yn arwain at oblygiadau ariannol/adnoddau;

▪nodi’n glir ddisgwyliadau cyrff cyhoeddus nad ydynt yn ddarostyngedig i’r Ddeddf yn ffurfiol mewn perthynas â datblygu cynaliadwy, a sut y bydd y disgwyliadau hynny’n cael eu monitro a’u gorfodi; a

▪nodi’n glir y meini prawf ar gyfer gwneud penderfyniadau o ran cynnwys/eithrio a’r broses neu’r amserlenni ar gyfer cychwyn adolygiadau yn y dyfodol.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i wireddu buddiannau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn cydnabod gwerth ystyried a ddylai'r ddyletswydd llesiant fod yn gymwys i fwy o gyrff cyhoeddus. Byddwn yn cynnal adolygiad o'r cyrff sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd y pedwar prawf a gymhwyswyd wrth benderfynu pa gyrff cyhoeddus oedd yn ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 pan gafodd ei datblygu yn sail i'r gwaith hwn.

O ystyried yr angen i ymgysylltu â phob parti yr effeithir arno a deall y goblygiadau i'r cyfryw gyrff, rydym yn bwriadu cwblhau'r adolygiad erbyn haf 2022. Bydd hyn yn ein galluogi i adolygu'r rhestr ochr yn ochr â'r cynigion ar gyfer y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) a fydd

yn gosod dyletswydd partneriaeth gymdeithasol ar y cyrff sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd cadw cysylltiad agos rhwng y ddyletswydd llesiant a'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn sicrhau cysondeb rhwng y ddau ddarn o ddeddfwriaeth, ac yn ategu'r rôl sydd gan gyflogeion i'w chwarae wrth lywio dyfodol Cymru.

**Goblygiadau ariannol**

Caiff goblygiadau ariannol ymestyn y ddyletswydd i gyrff ychwanegol eu hasesu fel rhan o Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Bydd costau'n gysylltiedig ag ymgynghori ac ymgysylltu â chyrff cyhoeddus, costau ar gyrff a goblygiadau i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.

---

**ARGYMHELLIAD 8**

Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau gyda chynlluniau i lunio llythyrau cylch gwaith mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ar ôl ymgynghori â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Dylai'r llythyrau cylch gwaith newydd gael eu defnyddio erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2022-23 fan bellaf.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi symud i Lythyrau Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth ers etholiad Senedd Cymru ar 6 Mai 2021. Caiff y Cylchoedd Gwaith hyn eu cymhwyso o flwyddyn ariannol 2021-22 ymlaen. Mae Fframwaith Llythyrau Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth yn cynnwys gofyniad i fodloni'r ddyletswydd llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Goblygiadau ariannol**

Dim, caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli.

---

**ARGYMHELLIAD 9**

Ni chaiff Llywodraeth Cymru greu unrhyw bartneriaethau na strwythurau cydweithredol newydd i gyflawni unrhyw swyddogaethau oni bai ei bod wedi archwilio'n llawn:

- a allai strwythurau partneriaeth presennol, yn hytrach, gyflawni'r swyddogaethau hynny;
- a allai'r strwythur newydd ddisodli'r rhai presennol;
- a all y swyddogaethau gael eu cyflawni gan gyrff cyhoeddus sy'n bodoli eisoes; ac ar ôl ymgynghori â chyrff cyhoeddus y mae'r newidiadau arfaethedig yn effeithio arnynt, a all y cyrff cyhoeddus hynny ddangos cefnogaeth i'r strwythurau newydd.

**ARGYMHELLIAD 10**

Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl etholiadau nesaf y Senedd sy’n nodi:

- sut y mae gwaith Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Cyd-bwyllgorau Corfforaethol, ochr yn ochr â strwythurau partneriaeth mawr eraill, yn rhyngweithio â’i gilydd o fewn fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, gydag enghreifftiau o arfer da;
- pa hyblygrwydd sydd gan bartneriaethau i wneud penderfyniadau i drefnu eu hunain yn well ac yn fwy effeithlon;
- lle gall partneriaethau a sefydliadau weithredu i symleiddio neu gydgrynhoi’r strwythurau llywodraethu ac adrodd i leihau ailadrodd a dyblygu;
- barn Llywodraeth Cymru ar dirwedd strwythurau partneriaeth dros y cyfnod adrodd nesaf (2020-25), gan gynnwys unrhyw gynigion i ddiddymu neu gydgrynhoi’r strwythurau hynny.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Roedd canlyniad yr *Adolygiad o Bartneriaethau Strategol*, y cytunwyd arno gan Gyngor Partneriaeth Cymru, yn cynnwys argymhellion clir i beidio â chreu partneriaethau newydd nac ychwanegu at gylch gwaith partneriaethau presennol heb ystyried y sefyllfa bresennol. Nodwyd nad oedd cefnogaeth o blaid diddymu unrhyw bartneriaethau penodol ac roedd pwyslais ar gefnogi partneriaethau i fynd ati eu hunain i symleiddio eu trefniadau lleol. Daeth yr adroddiad i'r casgliad y dylai'r newid ddigwydd o'r gwaelod i fyny, yn hytrach na chael ei orfodi gan Lywodraeth Cymru.

Credwn y bydd cyflawni yn erbyn argymhellion yr adolygiad hefyd yn cyflawni nodau argymhellion 9 a 10. Byddwn yn cydweithio'n agos â Chadeiryddion y partneriaethau strategol i gefnogi camau gweithredu lleol er mwyn cysoni a symleiddio'r trefniadau yn y ffordd fwyaf synhwyrol ar gyfer yr ardal honno. Yn unol ag argymhellion yr *Adolygiad o Bartneriaethau Strategol*, bydd Cyngor Partneriaeth Cymru yn monitro ac yn gwerthuso cynnydd. Fel rhan o'i adolygiad rheolaidd o'r cynnydd, bydd yn pennu pa gamau gweithredu pellach y gall fod eu hangen.

Fodd bynnag, y blaenoriaethau uniongyrchol ar gyfer llywodraeth leol yw rhoi Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ar waith yn llwyddiannus.

**Goblygiadau ariannol**

Caiff yr ymrwymiad hwn ei fodloni o fewn yr adnoddau staff presennol.

---